CYNNWYS

AROLWG O BROSIECTAU CADW EBRILL 2005—MAWRTH 2006 ***2***

GGAT 1 Gwasanaethau Rheolaeth Treftadaeth Rhanbarthol 2
GGAT 43 Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Rhanbarthol 9
GGAT 61 Nodweddu Tirwedd Hanesyddol 10
GGAT 67 Tir Gofal 12
GGAT 72 Defodau Cynhanesyddol a Chofadeiliau Angladdol 12
GGAT 75 *Vici* a Ffyrdd Rhufeinig 12
GGAT 76 Glannau Dŵr Trefol De Ddwyrain Cymru 13
GGAT 78 Llociau Amddiffynnol Cynhanesyddol 13
GGAT 80 Gweithfeydd Haearn De Ddwyrain Cymru 15
GGAT 83 Argloddiau Croes-Grib De Ddwyrain Cymru 16
GGAT 84 Digideiddio Ffotograffau o'r Awyr 17

AROLWG O BROSIECTAU CADW EBRILL 2005—MEDI 2005 ***18***

GGAT 61 Nodweddu Tirwedd Hanesyddol 18
GGAT 67 Tir Gofal 19
GGAT 72 Defodau Cynhanesyddol a Chofadeiliau Angladdol 19
GGAT 75 *Vici* a Ffyrdd Rhufeinig 21
GGAT 76 Glannau Dŵr Trefol De Ddwyrain Cymru 21
GGAT 78 Llociau Amddiffynnol Cynhanesyddol 21
GGAT 80 Gweithfeydd Haearn De Ddwyrain Cymru 22
GGAT 83 Argloddiau Croes-Grib 23
GGAT 85 Twmpathau Llosg De Ddwyrain Cymru 24

CYTUNDEBAU GWYDDONOL A ARIANNWYD GAN CADW ***26***

AROLWG ÔL-GLODDIO A CHYHOEDDIADAU ***26***

Llenyddiaeth Lwyd 26

RHAGLEN I'R DYFODOL HYDREF 2006—MAWRTH 2007 ***27***

GGAT 1 Gwasanaethau Rheolaeth Treftadaeth Rhanbarthol 27
GGAT 43 Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Rhanbarthol 27
GGAT 61 Nodweddu Tirwedd Hanesyddol 27
GGAT 67 Tir Gofal 27
GGAT 72 Defodau Cynhanesyddol a Chofadeiliau Angladdol 28
GGAT 75 *Vici* a Ffyrdd Rhufeinig 28
GGAT 76 Glannau Dŵr Trefol De Ddwyrain Cymru 28
GGAT 78 Llociau Amddiffynnol Cynhanesyddol 28
GGAT 80 Gweithfeydd Haearn De Ddwyrain Cymru 28
GGAT 83 Argloddiau Croes-Grib 29

GGAT 85 Twmpathau Llosg De Ddwyrain Cymru 29
GGAT 86 Gwaith Cynnal Tir Gofal 30
CYNIGON WRTH GEFN 30
CYNIGION CYCHWYNNOL AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2006—2007 32
ATODIAD 1 – CEISIADAU CYNLLUNIO 2005-2006 39

AROLWG O BROSIECTAU CADW EBRILL 2005—MAWRTH 2006

GGAT 1 Rheolaeth Treftadaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi profi cynnydd amlwg yn y galw am wasanaethau rheolaeth treftadaeth, gan gynnwys yr angen hollbwysig i ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r cyhoedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r twf yn ymwybyddiaeth a diddordeb y cyhoedd mewn archaeoleg, a welir, er enghraifft, trwy'r cynnydd yn nifer y rhaglenni archaeolegol yn y blynyddoedd diweddar. Mae gweithgareddau nifer o fudiadau gwahanol yn effeithio ar yr Amgylchedd Hanesyddol, ac mae'r prosiect hwn yn gofalu y gellir rhoi gwybodaeth a chyngor cadarn yn gynnar yn y broses gwneud-penderfyniadau.
Mae'r adran ganlynol yn manylu ar y fanyleb waith a gytunwyd rhwng Cadw ac Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau rheolaeth treftadaeth bellgyrhaeddol yn Ne Ddwyrain Cymru.

Gwybodaeth yn ymateb i geisiadau gan Cadw gan gynnwys data i gynnal prosiectau, yn enwedig felly'r Rhaglen Trefnu Gwelliannau

Trwy'r wybodaeth fanwl a gynhwysir yn y Cofnod o Safleoedd a Henebion Rhanbarthol, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gynorthwyo Cadw mewn sawl agwedd ar eu cyfrifoldebau statudol, gan gynnwys y rhaglen trefnu gwelliannau. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i gynnig ei hargymhellion rhaglennu ei hun sy'n deillio o'i gwahanol weithgareddau curadurol ac fe gyflwynwyd y rhain a gwybodaeth gynhaliol i Cadw i'w hystyried ganddynt.

Gwybodaeth SMR i ymholwyr yn unol â 'Canllawiau ar gyfer Defnyddio a Chodi Tâl' yr Ymddiriedolaeth (ac eithrio paragraff 11)

Bu Isadran Rheolaeth Treftadaeth yr Ymddiriedolaeth yn rhoi gwybodaeth a chyngor archaeolegol i unigolion a chymunedau yn y rhanbarth o ran eu prosiectau a'u diddordebau. Yn ystod y flwyddyn gwnaed 349 o ymholiadau o'i gymharu â 262 ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd arwyddocaol hwn (33.2%) yn uwch nac mewn unrhyw flwyddyn arall ers i gofnodion gael eu cadw; gellir priodoli ychydig o'r cynnydd i ymholiadau Tir Cynnal (19 ymholiad), ond mae'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â'r proffil uwch y llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i'w ddatblygu trwy waith maes mwy rhagweithiol. Mae nifer yr ymweliadau â swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth i fynd drwy ffeiliau gwybodaeth fanylach y Cofnod o Safleoedd a Henebion yn parhau'n uchel, gyda saith ymweliad arall y llynedd. Mae'r cyfleuster hwn ar gyfer ymweld â'r Ymddiriedolaeth yn wasanaeth cyhoeddus hanfodol ac yn unol â datblygiad yr Ymddiriedolaeth yn ganolfan adnoddau archaeolegol. Fodd bynnag, mae'n waith sy'n cymryd llawer iawn o amser, ac mae'n golygu elfen sylweddol o faich gwaith y Swyddog Rheolaeth Treftadaeth.

Blwyddyn	**Cyfanswm yr ymgynghoriadau***	**Ymweliadau â'r Ymddiriedolaeth**
2000-2001	152	49
2001-2002	217	51
2002-2003	277	59
2003-2004	287	76
2004-2005	262	67
2005-2006	349	74

*Nid yw'r rhain yn cynnwys ymgynghoriadau ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Diwydiant Coedwigaeth a Chyfleustodau Cyhoeddus, y ceir adroddiadau ar wahân ar eu cyfer.

Yn 2005-2006, roedd 103 ymholiad yn fasnachol, a chafodd y 246 eu hariannu trwy'r Prosiect Rheoli Treftadaeth.

Cyngor ar Geisiadau Caniatâd ar gyfer Henebion Rhestredig

Ar ran Cadw, derbyniodd yr Isadran Guradurol, sy'n ymgynghorai cydnabyddedig, 29 ymgynghoriad, y bu'n rhaid ymateb i ddau'n unig ohonynt: roedd y gweddill yn hysbysiadau am benderfyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar geisiadau. Fel deiliad y Cofnod o Safleoedd a Henebion, mae'r Ymddiriedolaeth yn gallu cynnig gwybodaeth a chyngor manylach, yn enwedig felly pan fod cais cynllunio hefyd wedi cael ei gyflwyno. Yn y ddau gais, awgrymwyd eu gwrthod gan y barnwyd nad oedd y cynlluniau gwaith arfaethedig yn cynnig gwarchodaeth ddigonol i'r archaeoleg.

Ymweliadau/cyfarfodydd safle gan staff curadurol

Er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau rheolaeth treftadaeth, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth nifer o ymweliadau safle a mynychodd sawl cyfarfod gyda nifer fawr o gyrff a mudiadau, yn gyhoeddus a phreifat. Mae'r agwedd hon ar y gwasanaeth i'r cymunedau rhanbarthol yn hollbwysig gan ei bod nid yn unig yn datrys problemau neu wrthdrawiadau posib mewn ffordd ragweithiol yn hytrach nac adweithiol, ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer hyrwyddo cyd bolisi ac ymrwymiad gwaith maes Cadw a'r Ymddiriedolaeth. Gwnaed ymweliadau â safleoedd fel Argae'r Efail Uchaf yng Nghwm Angidy, Tyndyrn (Sir Fynwy) i archwilio'r difrod a achoswyd gan falurion yn y llifddor, Mur Trefol Y Bontfaen (Bro Morgannwg), ble y cloddiwyd twll yn sylfaen mur canoloesol yn ystod cynllun tirweddu, a Cheriton (Abertawe) i gynghori ar adfer y llain bentrefol a llwybr treftadaeth arfaethedig. Math o henebion y mae'r Ymddiriedolaeth yn cael gwybod mwy a mwy amdanynt yw'r rhai'n gysylltiedig â'r Ail Ryfel Byd. Yn ystod y flwyddyn bu staff curadurol yr Ymddiriedolaeth yn ymweld â chysgodfan ymosodiadau awyr ym Maglan (Castell-nedd Port-Talbot), a bu hefyd yn cadw golwg ar y gwaith gan grŵp lleol o adfer awyren Spitfire yng nghyffiniau'r grŵp o dyrchfeydd rhestredig yn Llanddunwyd. Mae'r arfer gan bobl heb unrhyw arbenigedd archaeolegol nac ymchwil dylunio priodol i gloddio'r nifer cynyddol llai o safleoedd yr Ail Ryfel Byd yn destun pryder, ac fe gysylltwyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn gan awgrymu y gallent adolygu eu system o roi trwyddedau.

Gwybodaeth a chymorth yn gysylltiedig â'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru

Parhawyd i ddarparu cyngor dilynol yn ôl y gofyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch y Gofrestr o Dirwedd Hanesyddol.
Mae tirweddau hanesyddol yn cael eu hystyried yn fanwl yn gynyddol fel rhan o'r prosesau cynllunio defnydd tir, yn fwyaf diweddar yn adroddiadau HE1 Tir Gofal. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth neilltuo cryn dipyn o adnoddau ar gyfer y gwaith hwn, yn enwedig felly mewn ardaloedd ble y gallai datblygiadau mawr gael effeithiau sylweddol ar y dirwedd hanesyddol gofrestredig.

Cyngor Cyffredinol i Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol ar faterion o bob math gan gynnwys polisïau cynlluniau fframwaith a lleol

Gwnaed ymweliad safle ar gais Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gynnig cyngor ynghylch nodwedd archaeolegol, gogwydd, allai fod wedi cael ei effeithio'n andwyol gan waith ffyrdd newydd.

Ar gais Dinas a Sir Abertawe, ymwelodd staff yr Ymddiriedolaeth â Dyffryn Clyn i gynnig cyngor ar dirwedd ddiwydiannol bwysig mewn perthynas â'u rhaglen clirio planhigion Rhododendron.
Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gynnal a datblygu ein perthynas gynyddol a chynhyrchiol gyda'r awdurdodau cynllunio rhanbarthol yn Ne Ddwyrain Cymru. Cytunwyd Memorandwm o Ddealltwriaeth ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol yn y Fforwm Treftadaeth Rhanbarthol ddiwethaf. Mae hwn yn cyfuno'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau curadurol yr Ymddiriedolaeth i'r Awdurdodau Unedol yn Ne Ddwyrain Cymru mewn un ddogfen.

Cyngor Cyffredinol i Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol ar gynigion datblygu fel rhan o'r broses rheoli datblygu.

Gweler isod GGAT 43.

Cyngor a, ble'n briodol, ymweliadau sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Grantiau Coetiroedd ac ymgynghoriadau eraill i'r Awdurdod Coedwigaeth

Bu'r Ymddiriedolaeth, fel rhan o'i gyfrifoldebau rheolaeth treftadaeth, yn parhau i ddarparu gwasanaethau archaeolegol i'r Comisiwn Coedwigaeth. Derbynnir y Gofrestr o Gwympo a Phlannu bob wythnos, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwybodaeth a chyngor ar ddiogelu buddiannau archaeolegol fel rhan o brosiectau arian grant a gwaith coedwigaeth. Ymatebwyd i saith deg a thri ymgynghoriad ar gyfer y Cynllun Grant Coetirol yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â saith deg pump y flwyddyn gynt y llynedd. Cafwyd un cais am wybodaeth y Cofnod o Safleoedd a Henebion i helpu gyda pharatoi Cynlluniau Coetiroedd Brodorol ac un Cais Trwydded Cwympo a dderbyniwyd eleni. Mewn perthynas â'r ymgynghoriadau hyn cynhaliwyd ymweliadau i nifer o safleoedd megis Ysgol Knelston, Reynoldston, Gŵyr, i benderfynu a oedd y plannu arfaethedig yn debygol o amharu ar y safle Canoloesol Cynnar posib sydd ynghlwm wrth gyn safle eglwys Knelston, ac i fferm yn Nyffryn Sirhywi ble yr oedd tystiolaeth o loc hirsgwar bychan. Gwelwyd ymhen hir a hwyr mai'r hyn oedd hwn oedd lloc stoc ôl-ganoloesol yn hytrach na nodwedd flaenorol.

Cyngor fel rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal fel y'i amlinellir yn nogfen Cyngor Cefn Gwlad Cymru "Gweithdrefnau Cyswllt Amgylchedd Hanesyddol Tir Gofal ar gyfer Nodweddion Hanesyddol a Safleoedd Archaeolegol"

Trowch at GGAT 67 isod.

Darparu gwybodaeth a chyngor i ffermwyr a thir berchnogion eraill y tu allan i gynllun Tir Gofal.

Derbyniwyd ceisiadau am wybodaeth a chyngor oddi wrth ambell ffermwr a thir berchennog a chyfrifwyd am y rhain fel rhan o weithdrefnau ymholiadau'r Cofnod o Safleoedd a Henebion.

Ymholiadau cychwynnol gan ddiwydiannau gwasanaethau, fel dŵr a thrydan a chyfleustodau eraill.

Trowch at GGAT 43

Cyswllt a chyngor i gyrff cadwraeth fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac ati

Bu'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gadw cysylltiad da gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch nifer fawr o faterion a phrosiectau gwahanol. Mae'r

Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynnal perthynas dda gyda chyrff a mudiadau eraill ac unigolion a chanddynt gyfrifoldeb a diddordeb mewn materion yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a lleol.
Bu'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i ymateb i Asiantaeth yr Amgylchedd ar y Strategaethau Alldynnu Dalgylchol ar gyfer De Ddwyrain Cymru. Yn gyffredinol, buom yn cynghori y gallai newidiadau mewn lefelau dŵr afonol a'r amgylchedd lleol effeithio ar rai dosbarthiadau o safleoedd archaeolegol. Argymhellwyd y dylid ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth ar gyfer pob cynnig yn ddiwahân i'r dyfodol.

Monitro effeithiolrwydd Canllawiau Cynllunio (Cymru) a Chylchlythyr 60/96 – Cynllunio ac Archaeoleg yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae'r ddwy ddogfen wedi'u hymgorffori'n llawn ac effeithiol mewn polisïau ac arferion cynllunio yn Ne Ddwyrain Cymru. Rhoddodd yr holl Awdurdodau Unedol ystyriaeth lawn i'r ddarpariaeth sy'n ofynnol gan lywodraeth ganol i ddiogelu buddiannau archaeolegol trwy'r prosesau cynllunio. Nid oedd angen cymryd unrhyw gamau penodol yn ystod y cyfnod adrodd.

Cyngor dilynol a chynhaliaeth hirdymor ar gyfer prosiectau Cymru gyfan (eglwysi, arfordirol ac ati) a phrosiectau eraill yr Ymddiriedolaeth

Arfordirol

Gweler isod.

Dosbarthu'n ehangach ganlyniadau prosiectau a ariennir gan Cadw gan gynnwys trwy'r wefan.

Mae Cadw, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, yn hyrwyddo'r angen ledled Cymru i ddosbarthu gwybodaeth am waith archaeolegol. Mae'r galw cyhoeddus am wybodaeth ar y dreftadaeth archaeolegol wedi tyfu'n gyflym iawn dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddefnyddio ei gwefan (www.ggat.org.uk) i ddarparu gwybodaeth ar archaeoleg ranbarthol yn ogystal ag adran ar brosiectau a ariennir gan Cadw. Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd gwybodaeth am brosiectau Cadw at y wefan, gan gynnwys crynodeb o gymeriadaeth ddirweddol Tirwedd Hanesyddol Merthyr Tudful. Trafodir gweithgareddau maes eraill yr Ymddiriedolaeth isod.

Gwaith maes/addysgol cyffredinol

Fel rhan o'n hymrwymiad i waith maes, ac mewn partneriaeth gyda Cadw, bu'r Ymddiriedolaeth yn parhau i baratoi arddangosiadau a thaflenni, i wneud cysylltiadau newydd, rhoi darlithiau derbyn myfyrwyr a disgyblion ar brofiad gwaith i'n swyddfeydd.
Yn y Fforwm Treftadaeth Rhanbarthol, cafodd swyddogion o'n Hawdurdodau Unedol weld poster ar Archaeoleg a Chynllunio a baratowyd ar gyfer Bro Morgannwg, gyda lluniau o safleoedd a henebion o fewn ardal yr Awdurdod Unedol hwnnw. Aeth y gwaith ar addasu hyn ar gyfer ein holl Awdurdodau Unedol eraill ymlaen yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac fe gytunwyd lluniau ar gyfer Caerdydd, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd a Sir Fynwy.
Parhawyd i ddarparu gwybodaeth i gwmnïau cyfryngau er mwyn ystyried neu baratoi gwahanol raglenni teledu a radio.
Mynychwyd nifer o gyfarfodydd seminar/gweithdai i drafod materion fel Cynllun Gweithredu'r Afon Elai (Neuadd y Sir, Caerdydd), gweithdy'r Croesawydd Croesawgar a drefnwyd gan Herian (Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr), seminar Adfer Ein Gorffennol i'r Dyfodol yn y Neuadd Goffa, Trecelyn, Caerffili) a'r gweithdy ar

Strategaeth Twristiaeth Arfordir Cymru (Canolfan Dylan Thomas, Abertawe, Partneriaeth Tirwedd Dyffryn Sirhywi (Tŷ Bedwellte, Tredegyr). Rydym yn dal i fynychu cyfarfodydd grwpiau fel Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe. Rhoddwyd sgyrsiau a darlithiau i Grŵp Menywod Treboeth (Abertawe), Canolfan Gymunedol Cascade (Penpedairheol), Cyfeillion a Gwirfoddolwyr Glofa Elliot (Tredegyr Newydd), Cymdeithas Hanes Teuluol Morgannwg (Cangen Abertawe), Cymdeithas Hanesyddol Llwchwr, (Abertawe) a Chyfarfod Agored CBA Wales/Cymru (Prifysgol Abertawe).
Rhoddwyd taith gerdded dywys ar Abertawe hanesyddol fel rhan o Ŵyl Gerdded y Gŵyr ym mis Medi.
Trwy gydweithredu gydag Amgueddfa Abertawe trefnodd yr Ymddiriedolaeth Ddiwrnod Agored yn yr Amgueddfa ar Ddydd Sadwrn 16eg Gorffennaf 2005. Trefnwyd y diwrnod hynod lwyddiannus hwn fel rhan o Wythnos Archaeoleg Genedlaethol y Cyngor Archaeoleg Prydeinig. Roedd gan nifer o fudiadau lleol eraill arddangosiadau, gan gynnwys Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Cymdeithas Y Gŵyr, Cyfeillion Llong Casnewydd, Cyfeillion Castell Ystumllwynarth, Prifysgol Abertawe a Chlwb Darganfyddwyr Metel Abertawe. Defnyddiwyd digwyddiadau rhyngweithiol, fel gwneud potiau cynhanesyddol a gwahanol gystadlaethau, i gyflwyno plant i archaeoleg, ac roedd y diwrnod hefyd yn cynnwys tri grŵp o ddehonglwyr yng ngwisgoedd y cyfnod. Bu'r arddangosiad o goginio Rhufeinig a drefnwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn hynod boblogaidd. Trefnodd Gwerin Y Gŵyr, Cymdeithas Ailgreadau Hanesyddol yr Oesoedd Tywyll, wahanol arddangosiadau crefft fel gwneud esgidiau lledr a gwehyddu, yn ogystal ag arddangosfa o atgynyrchiadau o offer milwrol, gyda rhyfelwyr wedi'u gwisgo ar gyfer brwydr. Arddangosodd saethwr canoloesol o 'Saethwyr y Rhosyn' fedrau'r saethwr a nerth y bwa hir Cymreig. Cafodd aelodau'r cyhoedd gyfle i wisgo arfwisgoedd replica ac i ddysgu am offer a chyfarpar beunyddiol y cyfnod. Daeth nifer fawr o bobl i'r digwyddiad, gan fod y lleoliad yn llawer mwy hygyrch na swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth, a llwyddwyd i ddenu pobl oedd yn digwydd mynd heibio nad oeddent wedi sylwi ar y cyhoeddusrwydd ymlaen llaw. Dywedodd yr amgueddfa y cawsant lawer mwy o bobl nac arfer ar Ddydd Sadwrn cyffredin.

Diwrnod Archaeoleg Cenedlaethol 2005 Arddangosfa ac Arddangosiad Coginio Rhufeinig

Cymerodd yr Ymddiriedolaeth ran mewn dwy sioe amaethyddol. Y gyntaf oedd Sioe Abertawe ar y 29ain a'r 30ain Mai 2005 ym Mharc Singleton, gyda stondin ym mhabell partneriaeth SEEF (y Llecyn Eco). Y prif arddangosiad newydd a baratowyd ar gyfer y digwyddiad hwn oedd yr anodiad o ddelwedd lloerennol o'r Gŵyr, sydd ar gael yn fasnachol ar ffurf poster, i ddarlunio'r dirwedd hanesyddol; roedd hwn yn arbennig o boblogaidd gyda'r cyhoedd. Ar 17eg Awst 2005 cymerodd staff yr Ymddiriedolaeth ran yn Sioe Sirol Bro Morgannwg yng Nghastell Fonmon ger Sain Athan.. Dangoswyd arddangosiadau gan Cadw a'r Ymddiriedolaeth, ac roedd taflen berthnasol hefyd ar gael. Cafodd arddangosfa newydd ar ganlyniadau Arolwg Aneddiadau Rhufeinig-Brydeinig Tir Isel De Ddwyrain Cymru yn cynnwys gwybodaeth ar hanes maes y sioe yn arbennig groeso arbennig gan y cyhoedd. Cafodd plant ac oedolion fel ei gilydd flas ar y profiad ymarferol o wneud potiau cynhanesyddol ac o ddysgu am a thrin a thrafod gwahanol ddarnau o ddeunyddiau Rhufeinig a gloddiwyd.

Trefnwyd arddangosfa gan yr Ymddiriedolaeth yn Niwrnod Agored Cymdeithas Hanes Teuluol Morgannwg yn Neuadd y Ddinas Caerdydd ar yr 8fed Hydref 2005. Bu'r digwyddiad hwn yn gyfle gwych i staff yr Ymddiriedolaeth feithrin cysylltiadau gyda nifer fawr o fudiadau, gan y daeth dros drigain ohonynt ynghyd. Bu'n ddiwrnod hynod lwyddiannus, a denwyd mwy na 1,450 o ymwelwyr.

Bu staff yr Ymddiriedolaeth yn Niwrnod Agored Gwasanaethau Archifau Gorllewin Morgannwg ar y 30ain Medi yn Neuadd y Sir, Abertawe gydag arddangosfa o waith yr Ymddiriedolaeth ac arddangosfa Adeiladau Rhestredig Cadw.

Mae nifer y digwyddiadau y bu'r Ymddiriedolaeth ynddynt eleni (a'r llynedd) wedi gwneud cryn gyfraniad i godi ei broffil. Efallai yr adlewyrchir hyn yn y cynnydd amlwg yn nifer yr ymholiadau i'r SMR yn ystod y flwyddyn.

Sioe Bro Morgannwg 2005 Arddangosfa a Gweithgareddau GGAT

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i fynychu Fforwm Cefn Gwlad y Gŵyr, sy'n gorff ymgynghorol ar gyfer rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. O'r herwydd rydym wedi codi proffil yr amgylchedd hanesyddol, a dylai hynny greu gwell dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol a chynnig manteision rheolaeth bendant.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnig cynhaliaeth, cyngor a gwybodaeth i nifer o grwpiau cymunedol sy'n gwneud cais am wahanol grantiau ar gyfer prosiectau treftadaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Treftadaeth y Betws, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Plas Danbert, Cyngor Cymuned Llanmadog, Clwb Seiclo'r Cymoedd, Rhwydwaith Isadeiledd Promenâd Abertawe, Cyfeillion Castell Ystumllwynarth, Grŵp Cadwraeth Whitebrook a Chyfeillion Llong Casnewydd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymateb i adroddiadau am ddifrod i safleoedd archaeolegol a ddygwyd i'n sylw gan aelodau'r cyhoedd. Efallai nad oes angen ymweliadau safle ar gyfer pob un ohonynt, ac ymdrinnir â rhai trwy drosglwyddo'r wybodaeth i'r awdurdod perthnasol.

Fforwm Treftadaeth Ranbarthol

Rhan fawr o ymrwymiad a rhaglen gwaith maes yr Ymddiriedolaeth yw trefnu bob blwyddyn Fforwm Treftadaeth Rhanbarthol gyda'r deuddeng Awdurdod Unedol rhanbarthol yn Ne Ddwyrain Cymru, ynghyd â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Trefnwyd cyfarfod 2005 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn eu Swyddfeydd yn y Dociau yn Y Barri. Rhoddodd Rheolydd y Cofnod o Safleoedd a Henebion gyflwyniad ar y broses o drosi'r Cofnod o Safleoedd a Henebion yn Gofnod Amgylchedd Hanesyddol. O dan bennawd y Cofnod o Safleoedd a Henebion, trafodwyd hefyd y sefyllfa bresennol o ran y symudiadau i ddiogelu'r Cofnod o Safleoedd a Henebion/Cofnod Amgylchedd Hanesyddol pe bai'r Ymddiriedolaethau Cymreig yn dod i ben, cyfnewid data, a'r cynnydd a wnaed ar

ddarparu'r Cofnod o Safleoedd a Henebion ar lein trwy System Rheolaeth Treftadaeth Archdigidol Rhydychen.
Ar yr ochr rheolaeth treftadaeth, bu'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar: fentrau'r llywodraeth, y fenter Beth Sydd ar y Gweill, y cynnydd ar yr asesiadau bygythiad-seiliedig cyfredol a ariannwyd gan Cadw a'r asesiadau o'r dirwedd hanesyddol; a gwefan, taflenni ac arddangosiadau'r Ymddiriedolaeth. Daethpwyd ag arddangosfa *Adeiladau Rhestredig* Cadw ac arddangosfa *Rhufeiniaid yn y Fro* yr Ymddiriedolaeth er mwyn denu sylw ymwelwyr a chynnig enghreifftiau o'r mathau o arddangosiadau sydd ar gael ar fenthyg trwy'r Ymddiriedolaeth. Cafodd yr Awdurdodau Unedol restr o'r arddangosfeydd sydd ar gael ar hyn o bryd, a chawsant eu hannog i wneud archebion ac i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth i drafod unrhyw anghenion am arddangosfeydd na ddarparwyd ar eu cyfer yn barod, a chawsant eu hannog hefyd i roi archebion am y taflenni sydd ar gael ar hyn o bryd (pedair ar Dirwedd Hanesyddol, un ar y Cofnod o Safleoedd a Henebion, a thaflen uwchdiroedd y Comisiwn Brenhinol ar Gofebion Hynafol a Hanesyddol Cymru), y rhoddwyd copïau ohonynt yn eu pecynnau croeso. Cymerwyd nifer o archebion ac fe ddanfonir taflenni allan maes o law. Amlinellwyd y gynhaliaeth y gallai'r Ymddiriedolaeth ei chynnig i grwpiau treftadaeth gymunedol, a gofynnwyd i'r Awdurdodau Unedol gyfeirio grwpiau o'r fath at yr Ymddiriedolaeth, gan eu bod yn ymwybodol o'r ffaith nad ydym o reidrwydd yn gwybod ymhle y mae'r grwpiau hyn.
Yn dilyn rhan ffurfiol y cyfarfod cafwyd taith dywys o bentref canoloesol Cosmeston.

Ymateb i ymgynghoriadau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill ar gynigion sy'n effeithio'r amgylchedd hanesyddol.

Fel rhan o'n cyfrifoldebau ar dreftadaeth ranbarthol fe ymgynghorir â'r Ymddiriedolaeth ar nifer fawr o faterion gwahanol. Yn ystod y flwyddyn buom yn ymateb i'r dogfennau canlynol:

Oddi wrth	Teitl y ddogfen
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Drafft gynllun datblygu gwledig i Gymru 2007-13
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Strategaeth amgylcheddol i Gymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru	Parth Rheolaeth Arfordirol Integredig
Cyngor Dinas Abertawe	Strategaeth bioamrywiaeth Abertawe
Cyngor Dinas Abertawe	Strategaeth amgylcheddol Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Strategaeth gwella'r amgylchedd RhCT
Rhaglen Blaenau'r Cymoedd	Blaenau'r Cymoedd - Ar y Blaen
Rhaglen Blaenau'r Cymoedd	Y Ffordd Ymlaen…Tuag at Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd

Delio ag ymgynghoriadau sy'n gysylltiedig â Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad

Fel ymgynghorai cydnabyddedig bu'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymateb i ddarpariaethau Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad, polisi o bwys ar gyfer cynnig mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd ddefnyddio a mwynhau cefn gwlad. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn faes allweddol sy'n cynnig gwell cyfleoedd i reoli a chadw safleoedd archaeolegol ac yn gyfle i wneud gwaith addysgol a maes gyda'r cyhoedd. Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi derbyn nifer o fapiau diymwad ar gyfer gwahanol rannau o Dde Ddwyrain Cymru a rhagwelwn y byddwn yn cyfrannu ymhellach at drafodaethau ar yr amgylchedd hanesyddol wrth i'r prosiect ddatblygu cynigion penodol i gyflawni ei amcanion.

Bu staff yr Ymddiriedolaeth mewn gweithdy ym Mhorthcawl a drefnwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru fel rhan o ymgynghoriad ar y posibilrwydd o ehangu'r hawl i grwydro i ardaloedd arfordirol.

Delio ag ymgynghoriadau yn gysylltiedig â Thir Heb Ei Droi a Darpariaethau Tir Lled Naturiol Cyfeireb yr Asesiad Effaith Amgylcheddol.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd yr Ymddiriedolaeth dri ymgynghoriad ynghylch asesiadau amgylcheddol ar gyfer cynigion i addasu arferion amaethu.

Cyngor curadurol ynghylch yr amgylchedd morol

Ymgynghorwyd fwyfwy â'r Ymddiriedolaeth ar ddatblygiadau mawr megis ffermydd gwynt a chloddio agregiadau yn yr amgylchedd morol, yn enwedig felly Aber yr Afon Hafren. Cadwodd yr Ymddiriedolaeth gysylltiad agos â Cadw er mwyn sicrhau cysondeb y cyngor ar geisiadau sy'n cwympo'r tu allan i'r prosesau cynllunio arferol ac nad oes ar hyn o bryd unrhyw fethodoleg broffesiynol sefydledig na chanfyddedig ar gyfer ymateb.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i fod yn aelod o Bartneriaeth Aber yr Afon Hafren a mynychodd y cyfarfodydd hanner blwyddyn a gynhelir gan y corff hwnnw. Yn ystod y flwyddyn parhawyd i fynychu a chefnogi Grŵp Peirianneg Arfordirol Abertawe a Bae Caerfyrddin.

GGAT 43 Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Rhanbarthol

Ystadegau Cynllunio 2005 –2006 (trowch at Atodiad 1)

Mae'r gwasanaethau cynllunio archaeolegol a ddarperir ar ran Cadw yn golygu y bu'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth asesu yn y lle cyntaf holl geisiadau cynllunio'r rhanbarth a rhoi gwybod i'r awdurdodau cynllunio am gyfyngiadau archaeolegol ar y cynigion, gan roi gwybodaeth ac argymhellion penodol ar y llwybr gorau i'w ddilyn er mwyn diogelu buddiannau archaeolegol wrth ganiatáu datblygu cymeradwy. Wedi hynny, a chydag adnoddau cyfunol pob un o'r deuddeng Awdurdod Unedol, bu'r Adain Rheoli Datblygiad yn darparu nifer o wasanaethau manwl eraill, megis darparu esboniadau archaeolegol ar gyfer asesiadau cyn-penderfynu, cymeradwyo manylebau penodol a gyflwynwyd gan ddatblygwyr a monitro'r gwaith o'r cychwyn cyntaf a gwaith maes i gynhyrchu'r adroddiad terfynol. Mae'r Adain hefyd wedi bod ynghlwm wrth nifer o apeliadau cynllunio, gan ddarparu gwybodaeth a chyngor ysgrifenedig i Arolygiaeth Cynllunio'r Cynulliad Cenedlaethol.

Amgaeir ystadegau manwl 2005-2006 am yr ymatebion i geisiadau cynllunio a wnaed gan yr Isadran Rheolaeth Cynllunio Archaeolegol, sy'n amrywio o argymell asesiadau pendesg a gwerthusiadau maes ymwthgar yn y cyfnod cyn penderfynu ceisiadau cynllunio i atodi amodau archaeolegol priodol ar ganiatadau cynllunio, yn atodiad i'r adolygiad hwn.

Gwelwyd yn y pum mlynedd diwethaf gynnydd amlwg yn nifer y ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd yn ein hardal bob blwyddyn, ond ymddengys fod ystadegau eleni yn dangos y cyrhaeddodd y cynnydd hwn ei anterth, gan fod nifer y ceisiadau a gofrestrwyd ychydig yn is (2004-5 = 22,357, 2005-6 = 21,526), er bod problemau technegol mewn un ardal wedi creu arafwch yn danfon rhai ceisiadau ymlaen yn chwarter olaf 2005-2006.

Mae cyflwyno math newydd o gynllunio strategol yng Nghymru, y Cynlluniau Datblygu Lleol, a gymerodd le system flaenorol y Cynlluniau Datblygu Unedol, wedi

golygu cryn dipyn o waith i'r adain. Mae'r system newydd yn cael ei "harwain gan y gymuned", sy'n golygu annog cryn ymglymiad cymunedol, gan gynnwys cyfarfodydd. Mae'r Cynlluniau Datblygu Lleol hefyd yn gorfod mynd trwy Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol ac rydym hefyd yn cyfrannu at y prosesau hyn. Yn ystod eleni, dechreuodd Caerdydd, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg weithio ar eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mae nifer y ceisiadau cynllunio hefyd yn adlewyrchu hyd a lled y gweithgarwch datblygu, gan gynnwys nifer o brosiectau mawr a chymhleth. Treuliodd y gwasanaeth lawer o amser ac ymdrechion i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ystyried yn ofalus yn ystod y broses gynllunio ac y cynhwysir camau lliniaru, gan gynnwys gwaith cadwraeth in situ a chloddio yn y datblygiadau hyn. Yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliwyd cloddiadau archaeolegol sylweddol yn y ganolfan ymwelwyr newydd yng Nghastell Caerdydd ac yn ystod y gwaith o adeiladu Cwrs Golff Cwpan Ryder ym Mhentref Gwyliau'r Celtic Manor, Casnewydd.

Bu'r adain yn parhau i gynnig cyngor i'r Cwmnïau Cyfleustodau ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar effaith eu gwaith ar yr adnodd archaeolegol. Derbyniwyd saith deg pum ymgynghoriad yn ystod y flwyddyn, yn arwain at wneud nifer o ddarganfyddiadau yn ystod y gwaith monitro archaeolegol ar ddatblygiadau llinellol.

GGAT 61 Nodweddu Tirwedd Hanesyddol

Fel rhan o'r rhaglen barhaus o nodweddu tirwedd hanesyddol sydd yn y *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru (Rhannau 2.1 a 2.2)* mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal prosiect nodweddu tirwedd i astudio penrhyn Gŵyr. Ariannwyd yr astudiaeth bresennol ar y cyd gan Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Dinas a Sir Abertawe.

Mae tirwedd Gŵyr yn dirwedd hanesyddol brin a phwysig ac o'r herwydd fe'i cynhwysir yn y Gofrestr Genedlaethol o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru: Rhan 2:1: Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Anghyffredin yng Nghymru (1998). Mae nodweddu tirwedd wedi cyfiawnhau'r farn honno'n gyfan gwbl a gwna argymhellion ar gyfer rheolaeth ragweithiol a hirdymor yr ardal. Mae'r astudiaeth nodweddu tirwedd hon wedi cynnwys safle dynodedig cyfan yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn ogystal â'r ddwy ardal sy'n ffurfio'r cofrestriad, Gorllewin Gŵyr a Chefn Bryn. Mae ardal Gorllewin Gŵyr yn cynnwys: Twyni Whiteford a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Arfordir Gŵyr; Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Twyni Rhosili; Cofeb Hynafol Restredig gwersylloedd Hardings Down, Ardaloedd Cadwraeth Cheriton, Llangennith, Llanmadog, Porth-Eynon a Rhosili. Mae Cefn Bryn bron yn gyfan o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Comin Cefn Bryn.

Mae Tirwedd Hanesyddol Eithriadol Gŵyr, a ddewiswyd trwy gonsensws proffesiynol, yn cynnwys dwy o ardaloedd hanesyddol mwyaf cyflawn penrhyn Gŵyr, sydd er yn agos at ei gilydd er hynny'n dopograffyddol ar wahân, ac yn cynnwys tystiolaeth gyfoethog a heb ei thebyg o gyfnod hir o ddefnydd tir o'r cyfnod cynhanesyddol i'r diwydiannol. Mae'r ardaloedd yn cynnwys: ogofau Uwch Balaeolithig; beddau siambr Neolithig, cofadeiliau angladdol a defodol o'r Oes Efydd, caerau bryniog a phentir o'r Oes Haearn aneddiadau crefyddol a seciwlar o'r oesoedd canol, gan gynnwys cyn bentref canoloesol Rhosili a systemau caeau agored y Vile, tŷ heli o'r 16eg ganrif ym Mhorth-Eynon ac olion diwydiannol diweddar eraill.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr yn cwmpasu ac yn cynnig cyd-destun ehangach i Dirwedd Hanesyddol Eithriadol Gŵyr. O fewn yr Ardal o

Harddwch Naturiol Eithriadol hon, y gyntaf ym Mhrydain (1956), ceir safleoedd archaeolegol o bron bob cyfnod, o ogofau preswyl Uwch Balaeolithig i gestyll canoloesol a thirwedd parcdirol o'r 18fed ganrif a henebion diwydiannol, sy'n cynnig microcosm eithriadol o gyfoeth hanesyddol Cymru. Ceir dynodiadau pwysig eraill fel Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol Rhestredig.

HLCA Tirwedd Hanesyddol y Gŵyr 008 Bae Rhosili [l] 013 Rhimyn Arfordirol Amgaeedig Rhosili Isaf [c] a 023 Twyn Rhosili [r]

Gwnaed gwaith ar fethodoleg sefydledig y prosiectau Nodweddu Tirweddiau Hanesyddol a gynhaliwyd yng Nghymru. Mae'r prosiect hwn wedi cynnwys archwiliad cyflym o'r Cofnod o Safleoedd a Henebion a ffynonellau parod eraill, er mwyn dynodi nodweddu tirwedd hanesyddol arwahanol ble y mae nodweddion, buddiannau neu themâu hanesyddol/archaeolegol yn amlwg. Er mwyn deall ac arfarnu nodwedd ac ansawdd cymharol tirwedd cyffredinol, fe wnaed ymweliad dydd â nifer o ardaloedd allweddol. Yn dilyn yr arolwg cyflym hwn dynodwyd a disgrifiwyd wyth deg saith ardal nodwedd ar gyfer y Gŵyr.

Yn ogystal ag archwilio'r Cofnod o Safleoedd a Henebion buwyd hefyd yn defnyddio'r Arolwg Ordnans perthnasol, Mapiau Degwm ac Ystâd, a gedwir yn Swyddfa Cofnodion Morgannwg, Caerdydd, Swyddfa Cofnodion Gorllewin Morgannwg, Abertawe a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Golygodd y gwaith hwn y gellid cynnal asesiad atchweliad map cyflym a gynorthwyodd gyda'r asesiad o esblygiad tirwedd ardal y Gŵyr. Trwy edrych ar gofnodion ffotograffaidd o'r awyr, cafwyd gwybodaeth ar dirffurfiau, defnydd cyfredol a gwead.

Darllenwyd gweithiau cyffredinol, erthyglau a ffynonellau parod eraill ac fe'u cynhwysir yn y llyfryddiaeth ddethol. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiadau megis astudiaeth gyffredinol LANDMAP Abertawe, asesiadau a gefnogwyd gan Cadw, astudiaethau tirwedd benodol gan gynnwys gwaith a wnaed gan y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol a Hanesyddol Cymru ac eraill megis, er enghraifft, ar

Ddyffryn Clyn a Pharc le Breos, a chyfres o arolygon a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
Rhennir yr adroddiad yn sawl rhan:
Mae ***Rhan 1: Nodweddu Tirwedd*** yr adroddiad yn cynnwys y cyfeiriad ar gyfer *Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru: Rhan 2:1* (*op cit* uchod) yn ogystal â diffinio nodau, methodoleg a phrosesau nodweddu tirweddau. Mae hefyd yn ystyried rheolaeth nodwedd hanesyddol a defnydd a manteision ehangach nodweddu tirweddau hanesyddol i'r sawl sydd ynghlwm wrth waith cadwraeth tirwedd. Mae Adran 7 Rhan 1 yr adroddiad yn dynodi a disgrifio'r wyth deg saith ardal gyda nodweddion tirwedd hanesyddol a ddynodwyd ar gyfer Gŵyr ar sail y fethodoleg a gytunwyd. Mae argymhellion penodol darpariaethol ar gyfer rheoli'r ardaloedd nodwedd unigol hefyd wedi'u cynnwys. Caiff yr ardaloedd nodwedd ddynodedig eu mapio trwy ddefnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol, a ddarparwyd trwy garedigrwydd Cadw o dan gytundeb trwyddedu. Cafodd ffotograffau hefyd eu cynnwys er mwyn cynnig dyfnder ychwanegol i'r disgrifiadau.
Mae ***Rhan 2: Rheolaeth y Gŵyr*** yn ystyried cadwraeth a dyfodol hirdymor yr ardal ac fe wneir argymhellion darpariaethol cyffredinol. Mae argymhellion penodol darpariaethol ar gyfer rheoli'r ardaloedd nodwedd unigol hefyd wedi'u cynnwys yng nghorff yr adroddiad (rhan 1).
Fel tasg prosiect ychwanegol cwblhawyd Gwe Gyflwyniad Merthyr Tudful. Roedd yr elfen hon o'r prosiect yn golygu ail-fformadu a gosod testun parod ac wedi'i gyfieithu adroddiad Tirwedd Hanesyddol Merthyr Tudful a gynhyrchwyd yn 2003. Cafodd y mapiau a'r ffotograffau hefyd eu hail-fformadu mewn fformat a maint priodol, ac fe grëwyd cysylltiadau.

GGAT 67 Tir Gofal

Mae prosiect Tir Gofal a'r cyfle y mae'n gynnig i wella'r gwaith o gadw a rheoli agweddau o dreftadaeth Cymru ar dir fferm, na fu'n hwylus hygyrch hyd yn hyn, wedi parhau i fod yn llwyddiant yn y rhanbarth, ac fe gynigiodd fanteision pendant o ran cadwraeth amgylchedd hanesyddol cefn gwlad ac ar gyfer gwaith maes cyffredinol i ffermwyr a thir berchnogion.
Yn unol â gofynion Cadw, ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i geisiadau a restrwyd yn llwyddiannus (Cam HE1) ar gyfer cynllun Tir Gofal. Ar gyfer pob cais, darparwyd gwybodaeth a chyngor manwl i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac fe wnaed argymhellion o ran a oes angen ymweliad safle archaeolegol i asesu safleoedd a thirluniau. Yn ystod y flwyddyn prosesodd yr Ymddiriedolaeth 70 ymgynghoriad (deuddeg ohonynt yn diroedd ychwanegol). Defnyddiwyd y rhain gan swyddogion prosiect wrth wneud eu hymweliadau fferm eu hunain. Dynodwyd fod angen ymweliadau fferm archaeolegol ar ddeunaw o ffermydd (HE2).
Bu'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gyfarfod gyda Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru a gyda chynrychiolwyr rhanbarthol mewn nifer o gyfarfodydd gwahanol yn ystod y flwyddyn.

GGAT 72 Defodau Cynhanesyddol a Chofadeiliau Angladdol

Wedi gorffen prif elfen y gwaith maes, dynodwyd fod cryn dipyn o safleoedd naill ai'n gofnodion a hepgorwyd o'r Cofnod Henebion Cenedlaethol neu'n rhai a gafodd eu hychwanegu'n ddiweddarach at y Cofnod o Safleoedd a Henebion a'r Cofnod Henebion Cenedlaethol trwy waith maes yn yr uwchdiroedd, ac ar y safleoedd hyn y bu'r prosiect yn gweithio yn ystod y bumed flwyddyn. Roeddent yn cynnwys enghreifftiau a ddarganfuwyd yn ddiweddar ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, yr

oedd angen diwygio'r cofnod ar eu cyfer er mwyn darparu gwybodaeth yn ôl fformat safonol y prosiect. Fel arall, roedd y prif grŵp ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, gydag ychydig safleoedd eraill mewn gwahanol rannau o Dde Ddwyrain Cymru. Nid oedd unrhyw newidiadau o bwys i'r casgliadau y daethpwyd iddynt ynghynt, ond roedd yr arolwg newydd yn golygu y gellid diweddaru ystadegau ar y gwahanol fathau o henebion.

GGAT 75 Vici a Ffyrdd Rhufeinig

Roedd gwaith eleni yn canolbwyntio ar yr anheddle sifil yng Nghaerllion, y cynnyrch terfynol oedd adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r holl waith yn yr ardal ers cwblhau adroddiad Mill Street (Evans 2000). Cafodd y map a luniwyd ar gyfer yr adroddiad cynharach hwn ei ddigideiddio fel cyfres o dablau *MapInfo*, er mwyn galluogi gwaith yn y dyfodol i gael ei integreiddio yn hawdd, ac fe ychwanegwyd y wybodaeth newydd. Cwblhawyd chwiliad ffotograffig llawn o'r awyr am y tro cyntaf; canfuwyd beth oedd yn ymddangos i fod yn ail adeilad ar Wysg. Roedd llun llonydd o raglen deledu, a ddarparwyd gan aelod o Bwyllgor Ymchwil Caerleon, yn dangos ôl cnwd a allai fod wedi ei achosi gan adeiladau cymhlyg, neu efallai'r odynau llengol, ychwanegwyd y lleoliad hwn i'r map er ei fod yn rhy aneglur i'w blotio. Cynhaliwyd arolwg geoffisegol ymhellach mewn dwy ardal ar ochr ddwyreiniol yr anheddle sifil (Millmead ac Wysg) a gafodd eu gwerthuso yn 1989-90 mewn cysylltiad â ffordd osgoi arfaethedig (Evans 2000, 167-8, 173-5). Roedd arolwg Millmead yn ail-archwilio'r safle arolwg gwreiddiol, lle na gafwyd diffiniad digon eglur, yn ogystal ag ymestyn yr arolwg i'r dwyrain. Mae canlyniadau'r arolwg (gwrthedd a gradiomedredd) yn awgrymu fod gweithgarwch arwyddocaol yn digwydd yn y rhan o'r ardal sydd agosaf i safle Mill Street, ond ymhellach tuag at yr afon roedd y canlyniadau yn fwy amwys. Ar safle Wysg y gobaith oedd defnyddio radar treiddio daear i edrych ar y fframwaith Rhufeinig a ddarganfuwyd yno o ganlyniad i dyllau prawf yn ystod dadlwytho diweddar, ond oherwydd datblygiad sylweddol prysgoed ers 1990, roedd hyn yn amhosib. Roedd yr ardal a archwiliwyd (gan wrthedd a gradiomedredd) yn gorwedd i ddwyrain ardal wreiddiol yr arolwg, cafwyd canlyniadau amwys eto. Cadarnhaodd cloddio fod gweithgarwch sylweddol yn Millmead yn agos i safle Mill Street, gan gynnwys beth oedd yn ymddangos i fod yn adeilad wedi ei osod mewn llinell gyda pharhad *via principalis sinistra*. Ymhellach i ffwrdd o Mill Street, dangosodd yr anomaleddau eu bod wedi tarddu'n naturiol. Rhoddwyd dyddiad diweddar i'r gweithgarwch yn Wysg. Ychwanegwyd yr adroddiad ar y cloddio i'r adroddiad cyffredinol ar yr anheddle sifil. Comisiynwyd arolwg geomorffolegol o gyrhaeddiad llanw Afon Wysg ac Afon Llwyd uwchben Casnewydd gan Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Cymru Aberystwyth ac fe gynhyrchwyd adroddiad rhagarweiniol. Bydd y rhaglen waith yma yn cael ei gwblhau yn 2006-2007.

Cyfeiriad

Evans E 2000 The Caerleon Canabae *Britannia Monograph* 16.

GGAT 76 Glannau Dŵr Trefol De Ddwyrain Cymru

Wedi cwblhau Cyfnod 1 a 2 o'r prosiect hwn, ystyriwyd fod canlyniadau'r gwaith hwn yn amlwg yn haeddu cael ei ledaenu i ystod eang o ddefnyddwyr.

Roedd blwyddyn tri o'r prosiect felly yn cynnwys creu llyfryn 'sgleiniog' (GGAT 2006) ar gyfer cynulleidfa nad sy'n arbenigwyr, yn cynnwys amlinelliad o'r gwaith a

gyflawnwyd ac yn cyflwyno mewn dull gweledol (map, dyluniad a ffotograff) ganlyniadau a chyfyngiadau allweddol gyda chyngor pellach a manylion cyswllt.

Cyfeiriad

GGAT 2006 Wales, Waterfronts and the World (ISBN 1-870419-05-7)

GGAT 78 Llociau Amddiffynnol Cynhanesyddol

Mae'r prosiect pan-Cymru hwn yn dilyn peilot a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, gyda'r bwriad o adolygu nodweddion morffolegol a chyflwr llociau amddiffynnol o'r cyfnod cyhanesyddol hwyr. Roedd gwaith yr ail flwyddyn yn canolbwyntio yn bennaf ar Gwent, er fe ymwelwyd â rhai safleoedd o'r enghreifftiau arbennig sydd ym Morgannwg. Yn dilyn adolygiad o fas data Gwent penderfynwyd y byddai'r nifer o safleoedd byddai'n elwa o ymweliad yn is na'r rhif a amcangyfrifwyd yn ystod paratoadau'r prosiect.

Dechreuwyd gyda chyfnod o waith desg i adolygu'r wybodaeth bresennol ar lociau Gwent. O ran Morgannwg yn y flwyddyn flaenorol, gwrthodwyd unrhyw safle nad oedd yn amddiffynnol neu yn gynhanesyddol. Gwrthodwyd llociau o dan 20m ar draws gan eu hystyrir yn rhy fach i fod y math o lociau amddiffynol o dan ystyriaeth. Gwrthodwyd llociau oedd yn 500m neu fwy ar draws am eu bod yn rhy fawr, heblaw bod prawf digonol i ddangos eu bod yn amddiffynnol. O ran ffurf, gwrthodwyd llociau wedi'u diffinio gyda muriau yn hytrach na gwrthgloddiau, yn ogystal â safleoedd lle nad oedd y cloddiau a'r ffosydd amgaeedig yn ymddangos eu bod wedi bod yn ddigon anferth i fod yn amddiffynnol.

Cafodd safleoedd ble yr oedd prawf digonol o aneddiad mewn cyfnodau eraill, nad oedd yn cynnwys y cynhanesyddol, hefyd eu gwrthod. Cyfanswm y nifer o safleoedd a gadwyd ym mas data prosiect Gwent oedd 110. Ar gyfer y safleoedd hyn, cwblhawyd cyfres o ffurflenni yn manylu ar amddiffyniadau, mynedfeydd, y tu mewn, estyniadau a nodweddion cysylltiedig eraill, lle eu bod ar gael. Gwrthodwyd un ar ddeg safle arall adeg yr ymweliadau maes. Am y rheswm hwn, lle rhoir canrannau, maent hefyd yn cynrychioli'r gwir rif.

O ran Morgannwg, ychydig o safleoedd sydd uwchben cyfuchlin 244m. Ymddengys fod prinder safleoedd yn ne a dwyrain y sir, yn enwedig i'r gogledd o brif heol fodern yr A40, er nid yw'n glir os ydi hyn yn cynrhychioli gwir absenoldeb neu os ydi o ganlyniad i ffactor arall, fel diffyg gwaith maes, neu ailddefnydd diweddarach posib yn y Canol Oesoedd ar gyfer cestyll y mae eu gwrthgloddiau wedi cuddio anheddiad cynharach yn y safle. Cyn belled ac mae'r lleoliad topograffig uniongyrchol yn y cwestiwn, mae 23% ar lethrau bryn, 25% ar ben bryn, 19% yn gorwedd ar grib bryn ac mae 7% ar ryw fath o bentir. O'r 20% sy'n weddill, dim ond 9% sy'n gorwedd ar lefel is, fel gorlifdir neu lawr gwastad.

Cymharol ychydig o gaerau yng Ngwent anheddodd leoliadau naturiol cryf o gymharu â Morgannwg, gan na fod daeareg leol Gwent wedi arwain at leoliadau ar ochr clogwyni a chymoedd fel sydd i gael ym Morgannwg. Lleoliadau unglawdd yw'r ffurf fwyaf cyffredin o bell ffordd, gyda chwe deg dwy enghraifft, maent wedi eu dosbarthu yn ehangach na mathau eraill. Mae un deg saith enghraifft o lociau deuglawdd gydag amddiffyniadau wedi'u gosod yn agos, y mwyaf cyffredin wedyn yw amddiffyniadau amlglawdd, gyda deuddeg ohonynt. Ond, anaml iawn yw'r nifer o amddiffyniadau deuglawdd wedi'u gosod yn llydan, dim ond pum safle, ac amddiffyniadau amlglawdd wedi'u gosod yn llydan, dim ond tri safle.

Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd yn ymddangos fel ôl cnwd neu wrthgloddiau, ychydig dystiolaeth sydd o ragfuriau wedi eu hadeiladu'n hollol neu yn rhannol o gerrig, ond

mae'n bosib bod hyn oherwydd mai ychydig sydd wedi'u cloddio. O'r 39 safle ble mae mynediad wedi'i gofnodi, dim ond un mynediad sydd gan ddau ddeg naw, dau fynediad sydd gan y deg sy'n weddill. Mae mwy o fynedfeydd yn wynebu cyfeiriad deheuol (de, de ddwyrain, de orllewin) nac unrhyw gyfeiriad arall. Does dim gwybodaeth am gyfeiriad y mynedfeydd mewn trigain safle, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn safleoedd ôl cnwd heb ddim wedi goroesi uwchben y ddaear. Y fynedfa fwyaf cyffredin yw'r un symlaf, sy'n cynnwys dim mwy na bwlch yn yr amddiffynfeydd (dau ddeg tri enghraifft). Ychydig ym fwy manwl yw'r mynediad fel cyntedd (naw enghraifft). Ceir rhagdyrau a/neu waith cyrn mewn pedwar safle (13% o'r safleoedd lle y gwyddom am fynedfeydd); cofnodwyd enghraifft mewn un lleoliad yr un o warchetgell neu fynedfa gymhlyg.
Dosbarthwyd siâp o dan wyth pennawd, cylchog, is-gylchog, trionglog, afreolaidd neu gymhlyg. Cynrychiolwyd yr holl siapau o leiaf unwaith yn y grŵp astudiaeth. Y math mwyaf cyffredin oedd is-gylchog (tri deg pum enghraifft), roedd deuddeg safle yn hollol gylch, neu'n ddigon agos i gael eu dosbarthu felly. Disgrifiwyd tri deg dau safle fel is-betryalog a phump fel petryalog; efallai na fod y categorïau yma wedi eu diffinio yn eglur, ond heb gynllun wrth law na safle i ymweld ag ef nid oedd yn bosib penderfynu mai fel hyn yr oedd pethau mewn gwirionedd. Roedd pum safle yn gymhlyg, tri yn drionglog, tri yn amlonglog ac un yn afreolaidd. Prin yw grwpiau amlwg o lociau siâp arbennig mewn safleoedd, heblaw am ragoriaeth llociau is-betryalog a phetryalog wrth Maes Glo'r Gogledd Orllewin. Caiff nodweddion mewnol gynrychiolaeth wael yn y cofnod archaeolegol. Dim ond mewn pum safle cafwyd cloddio mewnol o unrhyw fath, a gan i Nash-Williams gyflawni dau o'r rhai yn yr 1930'au, ni allwn ddisgwyl canlyniadau dibynadwy. O'r tri a gloddiwyd yn fwy diweddar, mae dau wedi cynhyrchu tystiolaeth sy'n awgrymu presenoldeb tai crwn, ac mae'r trydydd, Lodge Hill, yn dangos strwythur ategol heb ddim rhos. Gwyddwn am ôl cnydau cylchog ymysg gwrthgloddiau o du fewn chwe safle arall a gloddiwyd. Ceir cofnod o estyniadau a llociau ychwanegol mewn deuddeg safle, a chyfundrefn caeau cysylltiedig yn bosib mewn pedwar safle.

GGAT 80 Gweithfeydd Haearn De Ddwyrain Cymru

Yn ystod ail flwyddyn y prosiect archwiliodd yr astudiaeth lwybrau cyflenwi, yn arbennig y rheilffyrdd calchfaen ac isadeiledd trafnidiaeth gynnar arall. Mae hanes rhain wedi'u hastudio'n fanwl, er i'r pwyslais fod ar ddogfennau yn hytrach na gwaith maes wrth geisio sefydlu beth oroesodd ar y llawr. Rhoddwyd sylw cynhwysfawr i nifer o'r systemau trafnidiaeth gysylltiedig â gwaith haearn yn Ne Ddwyrain Cymru: Tramffyrdd Merthyr (Archwiliad Archaeolegol), y rhwydwaith tramffyrdd o amgylch Blaenafon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru), a Thramffyrdd Coedwigol Aberhonddu (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru). Mae gan Herian a Groundwork Merthyr Rhondda Cynon Taf ddiddordeb datblygu rhwydwaith o lwybrau diwydiannol, gyda nifer ohonynt yn defnyddio tramffyrdd fel rhan o'r llwybrau. Astudiaeth arbennig o berthnasol i'r prosiect hwn yw gwaith Van Laun (2001), sy'n darparu disgrifiad manwl o'r elfen yn y system drafnidiaeth rheilffyrdd sydd wedi'i chadw orau, sef y lein oedd yn cario'r calchfaen toddedig o'r chwarel i'r ffwrnais. Cynlluniwyd y prosiect hwn gyda'r pwyslais ar ymweliad maes/arolwg yn hytrach na gwaith desg. Er bod y wybodaeth o fapiau hanesyddol yn help gyda lluniau i'r Arolwg Ordnans a Chynlluniau'r Bwrdd Iechyd a archwiliwyd yn y cam cychwynnol, ystyriwyd na fod defnyddio methodoleg gwaith desg ailadroddol safonol y ffordd fwyaf cynhyrchiol o ymdrin â'r mater.

Gwaharddwyd Tramffyrdd Merthyr a'r ardal o Flaenafon o'r prosiect cyfredol oherwydd lefel uchel o ymdriniaeth bresennol. Mae cyfran gynrychiadol o'r adnodd wedi'i ddethol ar gyfer dilysiad maes, ac yn cael ei ystyried ar gyfer amddiffyniad, wedi ei selio yn helaeth ar waith Van Laun (2001), gwybodaeth ar ganolfannau gwaith haearn a ffynonellau mapiau cynnar a gasglwyd yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect. Mae'r rhain fel sy'n dilyn: Rheilffordd Abersychan; Rheilffordd Llam-march; Tramffordd Llam-march; Rheilffordd Clydach; inclein Clydach; Tramffordd Disgwylfa; Rheilffordd Trefil, Rheilffordd Rassa; Tramffordd Neuadd Trefil; Tramffordd Rhymni; Tramffordd Twynau Gwynion (2 linell); Tramffordd (dwyrain) Morlais ac Elai; Tramffordd (gorllewin) Morlais; Tramffordd Tappenden; a Rheilffordd Mr Glover. Dewiswyd y rhain ar sail cysylltiad gydag amrywiol ganolfannau gwaith haearn, ble ystyrir yr olion sy'n weddill o ansawdd da, ac ar gydgysylltedd y dirwedd, yn ychwanegol i deipoleg ac ystyriaethau hanesyddol. Bydd hyn yn gadael mwy o ryddid wrth ddehongli'r dirwedd a deall adnoddau archaeolegol diwydiannol a'u prosesau.

Roedd y prosiect yn cynnwys holiad o'r Cofnod Safleoedd a Adeiliau cyfrifiadurol, atodwyd gan wybodaeth o Gofnod Adeiliau Cenedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Aberystwyth. Ymgynghorwyd â gwaith ac erthyglau cyffredinol a ffynonellau eraill oedd wrth law. Ni chyflawnwyd gwaith ymchwil gwreiddiol ar gyfer yr astudiaeth gyfredol.

Bydd argymelliadau ar gyfer astudiaeth wreiddiol bellach, fodd bynnag, yn ymddangos yn yr adroddiad terfynol. Mae'r data o Gofnod Safleoedd ac Adeiliau, sydd wedi ei gywreinio drwy ffynonellau eraill ac atchweliad map cyflym, wedi ei gydosod mewn cronfa ddata, gyda llwybrau'r nodweddion llinellol wedi'u plotio yn ddigidol. Ychwanegwyd lefel y bygythiad ac amddiffyniad presennol, ac yn dilyn dilysiad maes fe wiriwyd a diwygiwyd y data cychwynnol fel yr oedd angen, ac fe ychwanegwyd gwybodaeth am gyflwr/gwerth presennol. Bydd storio data, triniaeth, dadansoddiad, holiad, cyflwyniad a diweddaru gwybodaeth yn y dyfodol yn cael eu cyflawni gyda'r System Wybodaeth Ddaearyddol. Mae elfen Dechnoleg Gwybodaeth y prosiect wedi galluogi cynhyrchu model digidol dynamig, aml-haenog o ardal yr astudiaeth.

Rhan o Reilffordd Calchfaen Trefil yn gorwedd yn Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd. Roedd llwybrau fel hyn yn cysylltu cymunedau yn hanesyddol (Trefil a Glyn Ebw yn yr enghraifft hon) a'u canolfannau diwydiannol perthnasol. Gyda gwelliannau a rheolaeth sensitif byddant yn gallu cyflwyno llwybrau delfrydol i gymunedau gael cyrraedd at y gorffennol a chefn gwlad.

Mae adroddiad yr ail flwyddyn yn cyflwyno canlyniadau'r prosiect, gydag adran yn amlinellu'r amcanion a'r fethodoleg. Mae hefyd yn crynhoi'r bygythiadau potensial yn ogystal â'r rhai a wyddom amdanynt eisoes, yn darparu argymhellion cyffredinol ac yn sefydlu blaenoriaethau rheolaeth/gwarchodaeth.

Mae prif gynnwys yr adroddiad, Adran 8, yn nodi a disgrifio'r 25 rhwydwaith drafnidiaeth a nodwyd (43 isadran). Mapiwyd y llwybrau hyn yn y dirwedd bresennol gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol *MapInfo,* ac fe gynhyrchwyd ffigyrau i ddarlunio detholiad o'r nodweddion/lleoliadau oedd wedi cadw orau.

Cyfeiriad

J van Laun 2001 *Early Limestone Railways* (Llundain)

GGAT 83 Argloddiau Croes-Grib De Ddwyrain Cymru

Dechreuodd yr Ymddiriedolaeth asesiad oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar fygythiadau i Argloddiau Croes-Grib. Mae'r rhain yn ddosbarth nodweddiadol o adeiliau, yn arbennig yn ucheldir Morgannwg, ble mae'r mwyafrif o'r cribau wedi'u croesi gan wrthgloddiau byr, wedi'u cynllunio er mwyn rheoli mynediad ar hyd y llwybrau naturiol hyn. Ni allwn fod yn sicr o ddyddiad y nodweddion hyn, er y tybir tarddiad canoloesol cynnar (Cymdeithas Frenhinol Henebion Cymru 1976, 5-11).

Mae Argloddiau Croes-Grib yn gallu wynebu nifer o fygythiadau, yn cynnwys ail-blannu coedwigoedd, datblygiadau ffermydd gwynt, a gweithgarwch cerbydau oddi ar y ffordd (sgrialu a 4 X 4)

Yn ystod y cyfnod o dan sylw crëwyd gwell cronfa ddata o'r holl Argloddiau Croes-Grib a wyddwn amdanynt. Aseswyd y wybodaeth a gofnodwyd yn y Cofnod

Amgylcheddol Hanesyddol rhanbarthol a'r Cofnod Adeiliau Cenedlaethol. Astudiwyd ffynonellau cartograffig a dogfennol, yn ogystal â gwybodaeth berthnasol wedi'u hargraffu. Cafwyd y wybodaeth a'r data presennol ar Henebion Gofrestredig a thirweddau wedi'u cofrestru gan Cadw, cafwyd gwybodaeth ychwanegol ar gais wrth Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
O'r ffynonellau a archwiliwyd, yn gyffredinol data o fapiau hanesyddol a brofodd i fod yn fwyaf defnyddiol, roedd yn darparu gwybodaeth ar gyfer pob ardal. Dim ond setiau o fapiau oedd yn darparu ymdriniaeth lawn o'r ardal (degwm ac Arolwg Ordnans) a ddefnyddiwyd. Ni archwiliwyd cynlluniau ystâd cynt. Defnyddiwyd pob map hanesyddol, mapiau Arolwg Ordnans 1af, 2il, 3ydd a 4ydd argraffiad; graddiwyd y rhain 1/10,650 a 1/25,000. Gwnaeth yr ardal a ffotograffwyd yn ddigidol eglur ac iddi gyfeirnod daearyddol o'r awyr, a ddarparwyd gan *GetMapping*, o dan drwydded a ganiatawyd drwy Cadw, ddarparu gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol. Roedd deunydd argraffedig a deunydd heb eu hargraffu o ddefnydd, rhai yn fwy nac eraill. Adnabuwyd safleoedd o dan fygythiad arbennig neu rhai heb amddiffyniad ac enillwyd caniatâd perthnasol er mwyn cyflawni samplu drwy greiddio taradr a chloddio detholedig. Bwriedir cyflawni'r gwaith maes yma yn chwarter cyntaf 2006-2007.

Cyfeiriad

Royal Commission on the Ancient And Historical Monuments of Wales 1976 *An inventory of the Ancient Monuments in Glamorgan Vol 1: Pre-Norman Part III The Early Christian Period* (Caerdydd)

GGAT 84 Digideiddio Ffotograffau o'r Awyr

Cychwynnodd yr Ymddiriedolaeth raglen i ddigideiddio'r casgliadau o ffotograffau a grëwyd wrth gyflawni prosiectau gyda nawdd grant wrth Cadw. Cafodd y ffotograffau eu digideiddio i'r safon a osodwyd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a wnaeth hefyd archwiliad o'r cynnyrch. Roedd y gwaith yn creu delweddau TIFF er mwyn eu cadw mewn archif ddigidol a JPEGiau ar gyfer eu rhoi ar y we a gwaith estyn allan arall. Wedi cwblhau'r digideiddio, trosglwyddwyd y lluniau gwreiddiol i'r Comisiwn ar gyfer eu cadw'n hirdymor.
Yn y cyfnod o dan sylw cynhyrchwyd tua 1,000 o ddelweddau o'r casgliadau a ddaeth o waith Nodweddu Tirwedd Hanesyddol, Arolwg Arfordirol De Ddwyrain Cymru ac Asesiad Aneddiadau Rhufeunig-Brydeinig De Ddwyrain Cymru.

AROLWG PROSIECTAU CADW EBRILL 2006 – MEDI 2006

GGAT 61 Nodweddu Tirwedd Hanesyddol

Mae prosiect eleni yn cynnwys y tasgau canlynol:

1. Gosod adroddiad nodweddion Blaenafon ar wefan yr Ymddiriedolaeth (tudalennau Cadw)
2. Cyfieithu Gŵyr a gosod ar wefan yr Ymddiriedolaeth erbyn diwedd 2006 (tudalennau Cadw)
3. Cyfieithu ac argraffu taflen ar gyfer Nodweddion Tirwedd Hanesyddol Blaenafon
4. Cyfieithu ac argraffu taflen ar gyfer Nodweddion Tirwedd Hanesyddol Gŵyr
5. Adolygiad Astudiaethau Tirwedd Dyffryn Gwy Isaf

Tasg 1, cwblhawyd gosod gwaith nodweddion Tirwedd Hanesyddol Blaenafon ar y we yn Awst 2006, wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg. Golygodd hyn fformatio cynnwys Adroddiad Tirwedd Hanesyddol Blaenafon fel tudalen ar y we, a thrawsnewid y darluniau ffotograffig a'r mapiau sy'n darlunio ardaloedd gyda nodweddion tirwedd hanesyddol i fformat sy'n gytûn a'r we.



Detholiad mapio-gwe Blaenafon

Mae taflenni Tirwedd Hanesyddol Blaenafon a Gŵyr, tasgau 3 a 4, wedi eu cwblhau yn dilyn eu cyfieithu, drafftiau gyda Cadw ar hyn o bryd ar gyfer sylwadau. Unwaith derbynnir cymeradwyaeth wrth Cadw bydd drafftiau argraffedig terfynol pellach yn cael eu cynhyrchu, fel sy'n ofynnol cyn yr argraffu terfynol.

GGAT 67 Tir Gofal

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i brosesu rhan olaf Rownd 4 o'r ceisiadau gan ffermydd a gafodd eu rhestru'n llwyddiannus (HE1s). Ers dechrau Ebrill 2005 mae pedwar cais wedi eu prosesu. Roedd tri o'r rhain am diroedd ychwanegol.

GGAT 72 Defodau Cynhanesyddol a Chofadeiliau Angladdol

Fel elfen derfynol i'r prosiect, lluniwyd dogfen i adnabod (ymhlith pethau eraill) cofadeiliau a ystyrir i fod o dan fygythiad , a chofebion neu grwpiau o gofadeiliau fyddai'n elwa o arolwg. Bwriad gwaith maes yr Hydref hwn oedd ymchwilio cofadeiliau o dri o'r grwpiau a ganfuwyd; roedd y rhain yn cynnwys beddrod siambr Graig Fawr, wedi ei leoli ar y cribyn mwyaf gorllewinol yn yr ucheldiroedd i'r gogledd o Abertawe, y lloc sarnau yn Norton, sy'n llenwi un o'r bryncynnau uchel i'r dwyrain o Southerndown ym Mro Morgannwg, a (hefyd yn y fro) grŵp Crugfynwentydd Fferm yr Eglwys, wedi ei leoli mewn cae âr i'r Dwyrain o Monknash.

Darganfuwyd beddrod siambr Graig Fawr (SAM Gm 513) yn 1989, mae'n cynnwys dwy siambr fonolithig ar wahân â thwmpath sydd wedi diflannu. Rhagwelwyd y byddai arolwg o'r cyfuchlinau agos at ei gilydd ar y gofadail yn darparu cofnod cywir o'r siambrau a lleoliad posib y twmpath gwreiddiol, fyddai yn ei dro yn caniatáu ehangu'r ardal restredig. Dangosodd canlyniadau'r arolwg ddwy siambr (A a B) c3m ar wahan, wedi'u ffurfio o slabiau cymharol fach a thenau o dywodfaen lleol o Bennant, roedd gan bob siambr adrannau lluosog. Dinistriwyd y rhan fwyaf o'r twmpath; yn wir, mae'n anodd gwahaniaethu rhwng yr olion ac anwastadrwydd naturiol y ddaear. Er hynny, mae canlyniadau'r arolwg wedi dangos bodolaeth twmpath siâp cilgant i'r Gorllewin o siambr A a phosibilrwydd o barhad y twmpath i'r Dwyrain o'r un siambr; ond mae'n rhaid bod yn ofalus gyda'r dehongliad. Er i lwybrau defaid presennol gael eu hanwybyddu er mwyn peidio rhagfarnu'r canlyniad, ni ellir anwybyddu anomaledd o ganlyniad i lwybrau defaid hynafol ac ymyrraeth sydd wedi cyfrannu at ddinistr rhannol y siambrau, na chwaith y posibilrwydd fod elfennau uwch o strata naturiol yn gorwedd yn union o dan y pridd gorchuddiol.

Lloc Norton, adran o'r ffos wedi'i gloddio'n rhannol

Ffotograffwyd lloc Norton am y tro cyntaf o'r awyr yn 1984, er cafwyd cadarnhad fod yr ôl cnwd yn lloc ffos gydag ymyrraeth o ganlyniad i archwiliad strategol o'r awyr yng Ngorffennaf 1996 gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'r safle yn amgylchynu copa bryn calchfaen isel ac yn edrych dros aber llydan Afon Ogmore, a thu hwnt i dwyni tywod Warren Merthyr Mawr. Yn ôl y plot ffotograffig o'r awyr mae'r lloc yn ymddangos i gydymffurfio a chynllun deuglawdd sydd wedi'i ymyrryd gyda mynedfeydd yn gyfunion a'r pedwar prif bwynt. Mae diamedr mewnol o 191m wrth 176m a ffosydd 2-4m o led. Awgrymir fod tyllau crwn posib, gydag amrediad o ddiamedrau rhwng 2m a 10m, hefyd wedi eu dosbarthu yn fras ar draws y safle.

Roedd y gwaith maes yn cynnwys pedair ffos wedi'u gosod mewn lle er mwyn adnabod presenoldeb y cwteri deuglawdd ac roeddent o ddyfnder sylweddol er mwyn asesu natur a graddfa eu goroesiad. Roedd ffos 35m o hyd wedi'i lleoli drwy'r fynedfa ddwyreiniol ac wedi'i gosod er mwyn cwrdd â phydew mawr (10m mewn diamedr) a thair cwter a oedd yn creu terminus gantelog. Roedd yr ail a'r drydedd ffos yn 21m mewn hyd ac wedi'u gosod ar draws cwteri'r lloc i'r de lle credir bod terminus wedi'i leoli ond ei fod wedi'i guddio yn y llain ffotograffig o'r awyr gan goedlan eirin tagu ac ysgaw. Lleolwyd y ffos 20m olaf ar draws y cwteri i'r gogledd o'r lloc.

Heb os, mae canlyniadau'r cloddiad wedi profi bod y cwteri deuglawdd wedi bodoli, er nad oedd hi'r un mor hawdd dod o hyd i'r pydew mawr i'r dwyrain o'r safle. Gwnaeth y ffos gyntaf ddatgelu ffos naddedig mewn craig a oedd 1.2m mewn dyfnder a 13.8m mewn lled, ni welwyd olion y pydew mawr ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o bresenoldeb y terminus gantelog fel yr hyn a ddarluniwyd ar y llain ffotograffig o'r awyr. Dadansoddiad cynnar o'r gwter fyddai bod y llain ffotograffig o'r awyr a lleoliad y ffos ychydig yn anghywir ac o'r herwydd, ni fedrwyd dod o hyd i'r terminus a dargedwyd, a dilynwyd rhan fach o'r gwter fewnol, sy'n cynnwys ochr ogleddol y prif derminus ddwyreiniol. Gwnaeth yr ail a'r drydedd ffos ddatgelu dwy gwter a oedd yn mesur 2.9m i 3.5m mewn lled gyda therminus posib yn yr ail ffos, er gan mai dim ond y dyddodion digonol wnaeth gael eu cloddio i adnabod presenoldeb y cwteri, mae'r terminus yn parhau heb ei gloddio. Cafodd lled 3.5m y gwter fewnol ei ddatgeli gan ddangos ffos naddedig mewn craig 1.5 m mewn dyfnder, ymddengys bod y llenwad gwaelodol yn cynnwys cerrig llanw wedi ôl-lenwi o'r gwter, gyda nifer helaeth o esgyrn anifail a rhai dynol, o bosibl wedi'u dyddodi ar hap oddi fewn iddo. Ymddengys bod y llenwad gwaelodol wedi'i ôl-lenwi i mewn i'r gwter o'r de, roedd y dyddodion yn goleddu o'r ochr hwn, gan awgrymu presenoldeb cwter allanol, efallai, er na fu hyn yno am gyfnod hir. Nid oedd olion clawdd yn weladwy uwchben y gwter o ganlyniad i'r haen denau o uwchbridd a'r gyfundrefn amaethyddol sydd eisoes yn bodoli. Yna, gan fod y ddwy gwter wedi'u cloddio yn ôl hyd at y creigwely, cefnwyd ar y gwaith, am fod siltio naturiol sylweddol i'w weld a hynny'n ddwfn, ac yn dilyn hwn cafodd y tir ei aredig yn agos at wyneb y tir.

Mae grŵp Crugfynwentydd Fferm yr Eglwys (SAM Gm 262) wedi'i greu o dair tomen gladdu, a phenderfynwyd archwilio'r grŵp o ganlyniad i natur ddinoeth y gwrthgloddiau. Yn wir, mae'r niwed a wnaed i o leiaf dau o'r crugiau mor ddifrifol, fe ofynnir y cwestiwn a ddylid cloddio'r rhain yn llawn er mwyn eu cadw drwy gofnod neu beidio.

Penderfynwyd byddai gosod dwy ffos 35m ar draws y ddau grug sydd wedi goroesi orau, yn cynnig digon o wybodaeth ar gyflwr eu cadwraeth a'r graddau mae'r crugiau wedi eu lledaeni drwy arferion amaethyddol. Erbyn hyn mae'r trydydd crug mor ddinoeth fel bron ei bod hi'n amhosib dod o hyd iddo. Darganfuwyd dyddodion archaeolegol yn union o dan bridd yr erydr ac mae gweddillion y gwrthgloddiau hyn bellach wedi'u lledaenu ac yn amlwg felly fel isbridd. Gan fod y ddau grug mor ddinoeth, canfuwyd bod un o'r tomenni wrthglawdd (PRN 228s) yn cynnwys dau gorfflosgiad, mewn yrnau angladd, yn agos iawn at bridd yr erydr, a dim ond gwaelod

(0.1m mewn uchder) un yrn angladd sydd wedi goroesi. Symudwyd y ddau gorfflosgiad er mwyn atal colled pellach yn ystod gwaith aredig yr hydref hwn. Roedd yr yrnau angladd hyn wedi'u lleoli 0.55m uwchben y creigwely ac fe'u dehonglwyd i fod yn eilaidd i unrhyw gladdiadau cyntafol a all fod oddi tanynt, ond sydd eto heb eu cloddio. Darganfuwyd ffos naddedig mewn craig ar ochr ogleddol y crug crwn, wedi'i thorri drwy'r creigwely *Lias* naturiol, 1.4m mewn lled ac 1m mewn dyfnder gydag ochrau 0.5m a oedd bron yn fertigol. Canfuwyd haen denau o glai lliw golau a oedd yn ffurfio llethr raddol o'r gwter ar ben y dyddodion o'r twmpath sydd wedi goroesi; bellach wedi cwteuo yn wael, efallai bod y 'cap o glai' hwn ar y twmpath yn olion o orffeniad gwreiddiol i'r crug. Er bu ymdrechion tebyg i ddod o hyd i'r ffos crug i'r de, ni ddarganfuwyd olion o'r nodwedd hon. O ganlyniad i'r amser ychwanegol a dreuliwyd i godi'r corfflosgiadau yn PRN 228s ni fu digon o amser i archwilio PRN 227s ymhellach; lle canfuwyd y twmpath dinoeth yn union o dan bridd yr erydr.

GAT 75 Vici a Ffyrdd Rhufeinig

Cyfyngwyd ar waith eleni i gwblhau astudiaeth geomorffegol Dyffryn Wysg er mwyn gosod Caerllion Rhufeinig yn ei gyd-destun topograffig. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth, a'r bwriad yw y bydd hyn wedi'i gwblhau yn ail hanner y flwyddyn ariannol.

GGAT 76 Glannau Dŵr Trefol De Ddwyrain Cymru

Mae llyfryn y Glannau Dŵr wedi'i ddosbarthu ynghyd â llythyr eglurhaol, i ddeiliaid diddordeb allweddol: Bwrdd Cofadeiliau Hynafol; Cymdeithas Porthladdoedd Cysylltiol Awdurdodau Perthnasol Aber Hafren Prydain; Clwb Cychod y Barri; Cyngor Sir a Bwrdeistref Pen y Bont; Cymdeithas Archaeolegol Bryste a Swydd Gaerloyw; Cyngor Dinas Bryste; Amgueddfa a Galeri Gelf Dinas Bryste; Cymdeithas Saethu a Gwarchodaeth Prydain; Bwrdd Draenio Mewndirol Morfa Gwent & Gwynllŵg Dyfrffyrdd Prydain; Cymdeithas Archaeolegol Caerdydd; Cyngor Caerdydd; Awdurdod Harbwr Caerdydd; Cymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd; Prifysgol Caerdydd; Canolfan Ymwelwyr Caerdydd; Amgueddfa Cas-gwent; Dinas a Sir Abertawe; Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Crest Nicholson Marina's Ltd; English Heritage; Asiantaeth Amgylchedd Cymru; Cymdeithas y Gŵyr; Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent; Sefydliad Siartredig Broceriaid Llongau; Cyngor Sir Fynwy, Amgueddfa Castell Nedd; Cyngor Sir a Bwrdeistref CNPT; Prosiect Llongau CS Casnewydd; Cyngor Dinas Casnewydd; Comisiynwyr Harbwr Casnewydd; Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd; Paul Fairweather Co. Ltd; Comisiwn Brenhinol Cofadeiliau Hynafol a Hanesyddol Cymru; Sefydliad Brenhinol De Cymru; RSPB Cymru; Clwb Pysgota *Seaview Lad's*; Grŵp Arfordir Aber Hafren; Grŵp Gwarchodaeth Aber Hafren; Pwyllgor Ymchwil Morfa Aber Hafren; Partneriaeth Aber Hafren, Grŵp Ymchwil Aber Hafren; Grŵp Cadwraeth *Severn Princess*; Sustrans; Amgueddfa Abertawe; Amgueddfa Genedlaethol y Glannau; Grŵp Morwrol Seneddol ; Prifysgol Morgannwg; Prifysgol Abertawe; Cyngor Dyffryn Morgannwg; Partneriaeth Arfordirol a Morwrol Cymru; Bwrdd Twristiaeth Cymru; Llywodraeth Cynulliad Cymru; Welsh Water-Dŵr Cymru; Cymdeithas Cychod Cymru; Cymdeithas Hela Adar a Chadwraeth Gwynllŵg.

Bydd erthygl fer ar y gwaith yn ymddangos yn rhifyn nesaf *The Field Archaeologist*. Mae cyflwyniad *PowerPoint* wedi'i baratoi a gwnaed ambell gyflwyniad eisoes.

GGAT 78 Llociau Amddiffynnol Cynhanesyddol

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon (trydedd flwyddyn y prosiect) cwblhawyd gwaith maes ar gofadeiliau ym Morgannwg. Ymwelwyd ag ambell safle eisoes yn ystod blwyddyn un a dau, ond nodwyd bod angen ymweld â saith deg pedwar o safleoedd eraill. Nid oedd modd derbyn caniatâd i ymweld â saith o'r rhain ond ymwelwyd â'r gweddill, ac mae adroddiad wedi'i baratoi. Roedd llawer o'r safleoedd a gafodd eu hymweld wedi'u canfod drwy ffotograffiaeth o'r awyr. Gyda llawer o'r rhain canfuwyd bod effaith trin y tir yn fynych wedi cael gwared ar unrhyw olion o wrthgloddiau.

Yn gyffredinol, er yr ychwanegwyd at y data statudol sydd yn ymwneud â nodweddion morffolegol y llociau, ni addaswyd ar y casgliadau yn ystod y flwyddyn gyntaf yn sylweddol. Mae llociau amddiffynnol yn parhau i fod yn brin yn yr ucheldiroedd, ond ychwanegodd y dadansoddiad drwy leoliad topograffig safle yng ngwaelod y dyffryn, lle nad oeddent eisoes wedi'u cofnodi.

Gwnaeth yr amddiffynfeydd, lle cafodd y safleoedd eu darparu, amrywio o fod yn gloddiau a ffosydd mawrion niferus, i amddiffynfeydd unigol llai o faint, ac roeddent weithiau, ond nid bob tro, yn gysylltiedig â natur amddiffynnol naturiol y safle. Safleoedd unglawdd sy'n parhau fel y rhai mwyaf cyffredin o bell ford, ac mae wyth deg tri o enghreifftiau ohonynt erbyn hyn. Serch hynny, mae'n bosib bod y rhif yma'n cynnwys safleoedd lle mae cylch ychwanegol neu gylch o amddiffynfeydd wedi'u canfod, ac mae ffotograffiaeth o'r awyr a thystiolaeth geoffisegol o ddau safle unglawdd fel arall yn awgrymu efallai bod ganddynt balisâd allanol tu hwnt i amddiffynfeydd y gwrthgloddiau. Mae llociau deuglawdd sydd ag amddiffynfeydd agos yn cynrychioli tair enghraifft ar hugain, amddiffynfeydd deuglawdd wedi'u gosod yn llydan am bedwar ar ddeg ohonynt, amddiffynfeydd amlglawdd agos at ei gilydd am bymtheg, ac amddiffynfeydd amlglawdd wedi'u gosod yn llydan am ddeuddeg. Mae'r rhan fwyaf o'r mynedfeydd sydd wedi'u cofnodi yn rhai syml (pedwar deg pump o enghreifftiau), ac maent yn cynnwys nid mwy na bwlch yn yr amddiffynfeydd, er bod y cloddio yng Nghoed-y-Cymdda a Llanddewi-yn-Hwytyn yn dangos bod adeiladwaith pren yn wynebu pennau'r clawdd ar y ddau safle yma (Owen-John 1988, 59-65; Jarrett a Wrathmell 1981, 12-6), ac mae trefniadau tebyg yn debygol mewn safleoedd eraill, nad ydynt wedi cael eu cloddio. 13 enghraifft sydd yn parhau i'r math o gyntedd i fynedfeydd y gwrthgloddiau, ac mae'r mathau eraill o fynedfeydd yn brin (dau gyntedd mynedfa gyda gwarchotgelloedd, tair mynedfa dyrog/cornwaith a dwy o gynllun cymhleth). Mae pedwar enghraifft wedi'u canfod bellach gyda llwybrau ffosog/cloddiog (sarnau).

O ran y siâp mewnol, ni fu hi wastad yn bosib dehongli hyn o'r wybodaeth oedd ar gael. Lle bo modd eu hasesu, y rhai is-gylchog oedd y rhai mwyaf poblogaidd gyda saith deg pedwar o enghreifftiau, gan gynnwys llociau hanner cylch ar ymyl safleoedd clogwyni a chymoedd. Disgrifiwyd un ar ddeg ar hugain safle gwahanol fel rhai is-betryal a thri yn betryal. Roedd pum safle yn amlonglog, chwech yn drionglog, deunaw ohonynt yn afreolaidd ac un cymhleth. Prin yw'r grwpio arwyddocaol sy'n weladwy yn lleoliadau'r amrywiol siapau o lociau, ar wahân i ragoriaeth o rai crwn ar rannau is y Maes glo yng Nghastell Nedd Port Talbot. Nid oes fawr o wybodaeth ar gael ar fanylion mewnol y llociau hyn, nid yn unig o ran cadwraeth y gwrthgloddiau sy'n sefyll, ond hefyd am y rheswm nad oes fawr ohonynt erioed wedi eu cloddio. Mae chwech ar hugain o safleoedd wedi cofnodi adeiladau mewnol, gyda bron bob un

ohonynt yn gromlinog. Mae'n bendant bod estyniadau a llociau ychwanegol yn bodoli ar ddeunaw o safleoedd, gydag un ychwanegol o bosib, mae'r rhan fwyaf ohonynt (deg enghraifft) ar wahân. Mae wyth safle wedi'u nodi fel rhai sydd â chyfundrefn caeau cysylltiedig o bosib, er nad ydyw'n sicr eu bod yn gyfredol. Nid oes gan y rhan fwyaf ohonynt gofnod o ffurf y caeau hyn, ond lle bod cofnod ohonynt, maent yn rhai bychain, yn badogau neu'n llociau gardd o bosib.

Cyfeiriadau:

Jarrett, M G ac Wrathmell, S, 1981, *Whitton: An Iron Age and Roman farmstead*
Owen-John, H S, 1988, The hillslope enclosure in Coed y Cymdda, near Wenvoe, South Glamorgan, *Archaeol Cambrensis* **137**, 43-98

GGAT 80 Gweithfeydd Haearn De Ddwyrain Cymru

Cyfyngwyd ar yr astudiaeth yn wreiddiol i gynnwys ymyl gogleddol y maes glo. Mae tua deg ar hugain o safleoedd cynhyrchu haearn ffwrnais chwyth mawr wedi'u lleoli o fewn yr ardal hon.

Yn ystod ail flwyddyn y prosiect, ymestynnwyd ar yr astudiaeth o graidd safleoedd cynhyrchu a phrosesu i archwilio'r llwybrau darparu, yn enwedig y rheilffyrdd calchfaen ac isadeiledd trafnidiaeth gynnar eraill. Gohiriwyd cychwyn y gwaith ar drydedd rhan y prosiect, sef y gwaith i ganolbwyntio ar nodweddion rheoli dŵr sydd yn gysylltiedig â'r gweithfeydd haearn, drwy gytundeb y naill i'r llall, er mwyn ail-ddylunio'r prosiect er mwyn ei addasu'n well i gynorthwyo gyda gofynion Rhaglen Blaenau'r Cymoedd. Newydd gychwyn mae'r prosiect ac mae chwiliadau cychwynnol yn cael eu cynnal ac mae'r mapio atchwel digidol wedi cychwyn.

GGAT 83 Argloddiau Croes-Grib De Ddwyrain Cymru

Yn ystod gwanwyn a haf 2006 cynhaliwyd arolwg o'r holl argloddiau croes-grib a wyddwyd amdanynt ym Morgannwg a Gwent. Mae Argloddiau Croesgrib yn ddosbarth nodedig o gofadeiliau yn Ne-ddwyrain Cymru, yn enwedig yn ucheldir Morgannwg. Mae'r rhan fwyaf o gribau ucheldiroedd Morgannwg wedi eu croesi gan gloddiau gwrthglawdd byr, wedi'u cynllunio o bosib i reoli mynediad ar hyd y llwybrau naturiol hyn. Nid yw dyddiad y nodweddion hyn yn eglur, ond awgrymwyd eu bod wedi tarddu o'r 8fed neu'r 9fed ganrif OC (Fox 1936; Crampton 1966; RCAHMW 1976, 5-11).

Yn ystod camau cychwynnol y gwaith maes, cafwyd caniatâd i samplu saith o'r chwe safle ar ddeg, a dewiswyd i gloddio un o'r safleoedd hyn, sef Bedd Eiddil (PRN 02266.0m). Arolwg cyflwr yn unig a dderbyniodd y gweddill, gan nad oedd modd derbyn caniatâd i'w samplu a/neu eu cloddio gan berchnogion y tir. Cafwyd yr hawl i gyrraedd y safleoedd hyn, serch hynny, gan y Fenter Hawl Agored i Weld newydd.

Arglawdd Croes-Grib Bwlch y Clawdd SAM GM 500, tynnwyd rhan i ffwrdd ger y llwybr mynediad a threuliwyd ymhellach o ganlyniad i bwyntiau croesi cerbydau.

Cafwyd problemau wrth samplu'r saith safle, gan fod bron pob un o'r lleoliadau sampl wedi'u rhwystro gan gerrig o wahanol ddyfnderoedd. Byddai hyn, felly, yn awgrymu bod y rhan fwyaf o Argloddiau Croes-grib De Ddwyrain Cymru wedi'u creu o garreg neu o leiaf fod ganddynt lefel uchel o gerrig ynddynt. Yn wir, gwnaeth cloddio Bedd Eiddil ganfod llechfeini tywodfaen mawrion a oedd yn cael eu defnyddio fel gorchudd dros glawdd gwrthglawdd, ac mewn mannau gwnaeth atal y math mwyaf penderfynol o samplu. Yn hyn o beth, dysgwyd bod y math yma o samplu yn ddull aneffeithlon o werthuso. Byddai cloddio ar raddfa fach, wedi'i dargedu yn benodol, yn ddull asesu mwy effeithlon.

Gwnaeth pob un o'r saith safle a gloddiwyd creu canlyniadau a oedd yn cadarnhau fod y cofadeiliau hyn wedi'u lleoli ar stagnopodzols haearn, (pridd ucheldir gan amlaf gydag uwchbridd mawnog a haenlin dan yr wyneb gwlyb yn unol â'r cyfnod, eithaf brith ac wedi'i gannu, yn gorchuddio haen llawn haearn), ambell ardal gyda chletir haearn tenau, dros greigwely tywodfaen hynafol. Mae Crampton (1966) wedi dangos i'r cloddiau hyn gael eu hadeiladu nid ymhell ar ôl i baill *Ericaceae* gyrraedd ei uchafbwynt, gyda'r strwythur pridd yn *sol brun acide*, gan ffurfio ers yr Oesoedd Canol cynnar, ar bodsol a ddechreuodd ffurfio yn yr Oes Haearn.

Byddai hyn yn cyd-fynd yn dda gydag adferiad y naddion fflint llosg cynhanesyddol a'r belen glai llosg o'r hen bridd sydd ym Medd Eiddil. Mae Bedd Eiddil yn glawdd gwrthglawdd cymharol fach wedi'i greu o glawdd sengl gyda chwter ar ei hochr ogleddol wedi'i osod yn fras o'r dwyrain i'r gorllewin ar hyd y cefn rhwng Bryn Du a Charn Eiddil ar flaen Rhondda Fach. Gosodwyd ffos 10m ar hyd yr arglawdd, a wnaeth leoli'r clawdd gwrthglawdd, y gorchudd carreg a chwter bas. Mae presenoldeb paill *Ericaceae* yn yr henbridd yn awgrymu bod rhostir wedi bodoli nid ymhell ar ôl i'r paill *Ericaceae* gyrraedd ei uchafbwynt (Crampton 1966).

Nodwedd sy'n ymddangos yn aml yn yr holl gloddiau a gafodd eu harolygu yw'r niwed parhaus a achoswyd gan gerbydau modur, yn enwedig beiciau modur. Mae Bedd Eiddil yn enghraifft arbennig o wael, yma mae rhan ddwyreiniol yr arglawdd wedi erydu yn ddifrifol o ganlyniad i feiciau modur, ac mae rhigolau olwyn dyfnion wedi torri drwy'r cofadail ac o ganlyniad, mae'r clawdd a'r ffos bron wedi'u gwneud yn wastad llwyr. Yn ddiweddar (2005) cafodd yr arglawdd arbennig yma ei ddadgofrestru. Cadarnhaodd y cloddiad fod clawdd a ffos sylweddol wedi goresgyn ac o'r herwydd, awgrymwyd bod yn rhaid bod o leiaf 80m o hyd yr arglawdd wedi ei gadw mewn cyflwr da i'r gorllewin o'r ardal ddifrodedig . Nid yw Argloddiau Croes-grib yn nodwedd gyffredin yn Ne Ddwyrain Cymru a bydd angen gwir ystyried ailgofrestru'r cofadail arbennig hwn. Mae tipio anghyfreithlon yn broblem ger sawl un o'r cofadeiliau cofrestredig, yn arbennig y rheiny sydd mewn lleoliadau mwy diarffordd, megis y rhai ar Gomin Gelligaer ar ben Dyffryn Rhondda. Ni fu effaith ceffylau a cherddwyr cynddrwg ag effaith cerbydau modur, er i'r gweithgareddau hyn niweidio'r cloddiau, gan dorri llwybrau ffug drwy'r gwrthgloddiau. Canfuwyd tyllau anifeiliaid ar y rhan fwyaf o'r safleoedd hefyd ond gan gofio bod yr argloddiau croes-grib wedi'u creu yn bennaf o garreg, maent yn parhau yn sefydlog; yr unig adeg fydd problem fydd wrth ddadansoddi unrhyw un o'r cofadeiliau hyn yn amgylcheddol.

Cyfeiriadau

Crampton CB 1966 An interpretation of the pollen and soils in Cross-Ridge Dykes of Glamorgan *BBCS* XXI pt IV

Fox C 1936 An Investigation of the Cross-ridge Dykes of Glamorganshire *BBCS*

RCAHMW 1976 *An Inventory of the Ancient Monuments in Glamorgan. Vol I: Pre-Norman, Part III, The Early Christian Period* (Caerdydd HMSO).

GGAT 85 Twmpathau Llosg De Ddwyrain Cymru

Prif amcan yr astudiaeth hon yw egluro natur twmpathau llosg yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r twmpathau wedi'u creu o falurion tân a cherrig wedi'u hollti a gellir darganfod pydewau, weithiau wedi'u leinio â phren, o dan y twmpathau. Nodwyd yng Ngorllewin Cymru bod siâp y twmpathau yn gallu amrywio, ond mae'r rhan fwyaf yn amrywiadau hirgrwn ac isgylchog ac amrywiadau uwchdoredig o'r rhain (Williams, G 1995, 5).

Hyd heddiw, rydym wedi gwirio un ar ddeg o'r deunaw twmpath sydd wedi'u rhestri ar Gofnod Safleoedd a Chofadeiliau. Tynnwyd brasluniau o'r cofadail a'r ardal gyfagos, cafwyd ffotograffau o bob safle, a thynnwyd lluniau panoramig pan oedd y tywydd yn caniatáu inni wneud hynny. Cynhaliwyd arolygon o'r gwrthgloddiau gan ddefnyddio triongli o waelodlin pan oedd amser i wneud hynny, gan roi gwybodaeth gywir inni ynghylch ffurf sawl un o'r cofadeiliau hyn. Casglwyd y manylion hyn at ei gilydd er mwyn gwirio'r wybodaeth oedd gennym ar y cofadeiliau hyn, ond hefyd er mwyn casglu gwybodaeth fanylach a mwy defnyddiol ar eu ffurf nad oedd eisoes mor gynhwysfawr ac i'n galluogi i arolygu ychydig o'u cyd-destun diwylliannol a thirwedd yn gliriach.

Twmpath llosg siâp cilgant gyda rhoden fesur yng nghanol ymyl fewnol y cilgant. Sylwer y tir corsaidd iawn sydd wedi'i ddangos gan y gors gotwm. Mae Twmpathau Llosg yn aml wedi'u lleoli ger nentydd (PRN 02144w, Cefn Bryn ar y Gŵyr).

Mae'r prosiect hwn hefyd yn cynnwys ymrwymiad tuag at y gymuned leol a chysylltwyd â ffynonellau gwybodus lleol ynghylch lleoliadau posib twmpathau llosg eraill yn Ne Ddwyrain Cymru. Gallwn, yn y modd hwn, gynnwys y cyhoedd yn uniongyrchol wrth greu set o ddata a all gael ei wirio yn y flwyddyn neu ddwy nesaf. Penderfynir ar hyn o bryd p'un ai bod safleoedd penodol yn addas i'w profi mewn modd hynafol-amgylcheddol a chafwyd cynnig i gloddio yn 2007-2008.

Cyfeiriad

Williams, G 1995 *A Pilot Assessment of Burnt Mounds in Dyfed* Unpublished Cambria Archaeology/Adroddiad DAT a gynhyrchwyd ar gyfer Cadw

CYTUNDEBAU GWYDDONOL A ARIANNWYD GAN CADW

Ni ddefnyddiwyd cytundeb gwyddonol CADW yn sylweddol yn 2005-2006. Yn hanner cyntaf 2006-2007 adferwyd samplau ar gyfer dadansoddi hynafol-amgylcheddol a dyddio C14 posib o samplu'r tir a chloddio ym mhrosiect Argloddiau Croes-grib yng nghlawdd Bedd Eiddil ac adferwyd deunyddiau eraill o'r gwaith maes a gynhaliwyd yn Norton a St Donats fel rhan o brosiect defod gynhanesyddol a chofadeiliau angladdol ond nid yw wedi'i asesu hyd yn hyn. Rhagwelir y bydd y cytundeb yn cael ei ddefnyddio yn ystod ail hanner 2006-2007, yn enwedig ar gyfer dyddio C14.

AROLWG ÔL-GLODDIO A CHYHOEDDIADAU

Ni ymgymerwyd ag unrhyw waith ôl-gloddio a ariannwyd gan Cadw eleni.

Adroddiadau 'Llenyddiaeth Lwyd' ar waith sy'n derbyn cymorth grant.

Cynhaliwyd cronfa ddata ar yr holl adroddiadau llenyddiaeth 'lwyd' a gynhyrchwyd ar gyfer Cadw: Cofadeiliau Hanesyddol Cymru a rhoddwyd copi i'r Arolygiaeth. Bydd diweddariad yn cael ei ddanfon ar ôl cyfarfod yr arolwg hanner-blynyddol. Cynhyrchwyd yr adroddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:-

- *Waterfronts in Southeast Wales: Phase 2* Rhif yr Adroddiad**2005/039** (GGAT 76)
- *Southeast Wales Industrial Ironworks Landscapes Year 1: the core ironworks areas* Rhif yr Adroddiad.**2005/056** (GGAT 80)
- *Prehistoric Defended Enclosures in Glamorgan with recommendations for fieldwork* Rhif yr Adroddiad.**2005/058** (GGAT 78)
- *Southeast Wales Industrial Ironworks Landscapes Year 2: Transport Networks* Rhif yr Adroddiad.**2006/013** (GGAT 80)
- *Prehistoric funerary and ritual sites: supplementary sites* Rhif yr Adroddiad.**2006/014** (GGAT 72)
- *Prehistoric defended enclosures in Gwent* Rhif yr Adroddiad.**2006/021** (GGAT 78)
- *Roman roads and vici in Southeast Wales: Year 4 report - the Caerleon canabae* Rhif yr Adroddiad.**2006/025** (GGAT 75)

RHAGLEN I'R DYFODOL HYDREF 2006—MAWRTH 2007

GGAT 1 Gwasanaethau Rheolaeth Treftadaeth Ranbarthol

Bydd Adran Rheolaeth Treftadaeth yr Ymddiriedolaeth yn parhau gyda'i gorchwyl rhanbarthol o ddarparu ystod eang a manwl o wasanaethau rheoli treftadaeth ac estyn archaeolegol, yn seiliedig ar restr Gwasanaethau Curadurol Cadw. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyngor SMR i rai sydd yn gofyn amdanynt, a mentrau i gynyddu ein gwaith estyn i'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd Cadw yn parhau i ddarparu gwybodaeth ystadegol fanwl yn ein hadroddiadau monitro.

Yn yr hanner blwyddyn nesaf yn benodol, bydd yr Adran Treftadaeth yn:

- Cwblhau cynhyrchu taflenni tirwedd hanesyddol Blaenafon a'r Gŵyr a threfnu eu dosbarthu;
- Diweddaru rhan Cadw ar wefan yr Ymddiriedolaeth;
- Parhau i weithio ar gynhyrchu taflenni i gyflwyno cerrig cerfiedig ac arysgrifenedig y Canol Oesoedd cynnar yn Gŵyr a Merthyr Mawr, mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol.

GGAT 43 Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Rhanbarthol

Bydd Adran Rheoli Cynllunio Archaeolegol yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu gwasanaeth manwl a chynhwysfawr i'r deuddeng Awdurdod Unedol rhanbarthol, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, datblygwyr, asiantau a chontractwyr archaeolegol. Mae'r prosiect hwn yn parhau i ddibynnu ar drefniadau darparu gwasanaeth tridarn sydd gan yr Ymddiriedolaeth, Cadw a'r deuddeng awdurdod cynllunio rhanbarthol. Bydd gwybodaeth ystadegol fanwl yn parhau i gael ei darparu i Cadw yn ein hadroddiadau monitro rheolaidd.

GGAT 61 Nodweddu Tirwedd

Yn ystod ail hanner y flwyddyn hon mae hi'n fwriad golygu a chyfieithu testun nodweddu tirwedd hanesyddol Gŵyr a gosod gwaith y Gŵyr ar y we (tasg 2) erbyn diwedd 2006 er mwyn cyfateb â phen-blwydd Ardal Gŵyr o Harddwch Naturiol Eithriadol yn 50.

Er mwyn ein galluogi i osod yr wybodaeth ar y we bydd angen paratoi'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad Gŵyr a'i fformatio fel tudalennau gwe a'u llwytho i fyny. Ar ben hyn, bydd angen trosi'r ffotograffau a'r mapiau sydd yn darlunio ardaloedd nodweddiadol o dirwedd hanesyddol i mewn i ddiwyg sydd gydnaws â'r we.

Arolwg Is-ddyffryn Gwy

Yn ogystal â hyn, yn ystod ail hanner y flwyddyn hon fe fydd arolwg o astudiaethau blaenorol ar nodweddu tirwedd yn cael ei gynnal ar Is-ddyffryn Gwy (tasg 5). Cydgesglir yr holl astudiaethau perthnasol sydd eisoes yn bodoli ar dirwedd a bydd arolwg cyflym yn cael ei gynnal. Bydd hyn yn penderfynu ar y lefel o nodweddu bydd ei hangen ar gyfer tirwedd hanesyddol is-ddyffryn Gwy. Mae'r ffynonellau i'w harolygu yn cynnwys ymarfer nodweddu Swydd Gaerloyw, gwaith gan Liz Whittle, gwaith a wnaed ar gyfer Cais Cronfa Loteri Ardal Dyffryn Gwy o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac astudiaeth Map tir Sir Fynwy.

GGAT 67 Tir Gofal

Mae'r Ymddiriedolaeth yn deall, wrth drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros Tir Gofal o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru, y bydd cyfleoedd newydd yn agor ym mis Tachwedd. Ar ben hyn rydym yn deall, ar draws Cymru efallai, bydd angen cydymffurfio ag adroddiadau *c*125 HE1 yn ystod diwedd blwyddyn ariannol 2006-2007, a bod dosbarthiad daeryddol y cyfanswm hwn yn anhysbys hyd yn hyn. O gofio tueddiadau'r gorffennol efallai bydd gofyn i'r Ymddiriedolaeth ymgymryd â 10-15% o'r cyfanswm, ond nid yw hyn yn bendant.

GGAT 72 Defodau Cynhanesyddol a Chofadeiliau Angladdol

Bydd yr adroddiad prosiect yn cael ei gwblhau ar ddechrau'r hydref.

GGAT 75 Vici a Ffyrdd Rhufeinig

Bydd astudiaeth geomorffig Dyffryn Wysg (y bwriad yw gosod Caerllion Rhufeinig yn ei gyd-destun topograffig) yn cael ei chynnal gan Sefydliad Daearyddiaeth ac Astudiaethau Daear Prifysgol Cymru Aberystwyth.

GGAT 76 Glannau Dŵr Trefol De Ddwyrain Cymru

Y bwriad ar hyn o bryd yw gwneud sawl cyflwyniad arall i gyrff dethol. Efallai bydd y gwaith yn amodol ar ailgyfeiriad.

GGAT 78 Llociau Amddiffynnol Cynhanesyddol

Bydd yr adroddiad prosiect yn cael ei gwblhau ar ddechrau'r hydref.

GGAT 80 Gweithfeydd Haearn De Ddwyrain Cymru

Mae cynigion ar raddfa fawr, megis Rhaglen Blaenau'r Cymoedd, yn gymaint o gyfle ac ydyw o fygythiad i'r adnodd treftadaeth anfesuredig yma sy'n bodoli. Tra bod gwaith gwelliant o bosib yn niweidiol i'r adnodd archaeolegol, mae Rhaglen Blaenau'r Cymoedd yn cynnig pum nod strategol, a'r prif un yw 'amgylchfyd naturiol, deniadol, hanesyddol, sydd wedi'i adeiladu a'i ddefnyddio yn dda' a'r gred yw y bydd hyn wedi'i gyflawni drwy welliannau amgylcheddol, strategol ar raddfa'r dirwedd. Mae nod arall yn cyfeirio at 'brofiad twristiaeth a hamdden gydlynol sydd yn apelio' a fyddai'n cynnwys prosiectau rhanbarthol mawr. Mae gwir gyfle i reoli treftadaeth gyfannol, a chynigwyd bod y prosiect tirwedd gweithfeydd haearn yn cael ei greu i weddu gyda ffocws ar raddfa dirwedd Rhaglen Blaenau'r Cymoedd. Mae ardal Rhaglen Blaenau'r Cymoedd yn cynnwys olion pwysig sydd yn gysylltiedig â'r diwydiant haearn. Er mwyn i'r wybodaeth fod ar gael i Raglen Blaenau'r Cymoedd sy'n datblygu, bydd astudiaeth systemau echdynnol a rheoli dŵr y gweithfeydd haearn yn canolbwyntio i gychwyn ar yr ardal y mae'r fenter yn ymdrîn â hi.

I adeiladu ar y ddwy flynedd o waith sydd wedi'i gwblhau, bydd systemau rheoli draenio/dŵr sydd yn gysylltiedig â'r gweithfeydd haearn yn cael eu mapio o fapiau hanesyddol a chymhariaeth gyflym gan ddefnyddio mapio gwaelodlin fodern a ffotograffau o'r awyr. Yn y modd hwn bydd maint yr adnodd sydd wedi goroesi yn gallu cael ei adnabod a'i feintoli yn gyflym. Yn ogystal, bydd ardaloedd tirwedd amaethyddol sydd â chryn botensial iddynt yn gallu cael eu hadnabod a bydd mapiau cyfyng yn gallu cael eu cynhyrchu. Bydd y lefelau gofal presennol yn cael eu hadolygu a bydd argymhellion yn cael eu gwneud i wella ar y gofal yn ôl yr angen.

Y cynnig yw yn ystod y flwyddyn nesaf (2007-2008), bydd yr un broses yn cael ei chyflawni o ran safleoedd echdynnol perthnasol gweithfeydd haearn ardal Rhaglen Blaenau'r Cymoedd, gyda'r deilliant gorffenedig o asesu'r waelodlin adnodd a chynhyrchu mapio cyfyng.

Yn ystod y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn, bydd gweithgaredd mapio yn seiliedig ar argraffiad cyntaf map Ordnans 25 modfedd (Mapio Hanesyddol LANDMARK) yn galluogi adnoddau gweithfeydd haearn penodol (hy nodweddion draenio ac echdynnol) i gael eu hadnabod a'u meintoli ar raddfa dirwedd. Asesir goroesiad yr adnodd drwy gymharu gwybodaeth a geir o fapiau hanesyddol a mapio modern (Landline Map Ordnans) yn ychwanegol at wybodaeth a geir wrth ffotograffau digidol sydd ar gael wedi'u tynnu o'r awyr (Get Mapping). Bydd gwybodaeth ar fapiau sydd eisoes ar gael ar dir glo brig a thir sydd wedi'i adennill yn cael ei chanfod, lle bo hynny'n bosib, a'i defnyddio i gynorthwyo'r broses hon.

Byddai gwybodaeth ar ofal statudol mewn perthynas â safleoedd rheoli ac echdynnu dŵr mewn perthynas â gweithfeydd haearn yn ardal Rhaglen Blaenau'r Cymoedd, yn cael ei sicrhau gan Cadw er mwyn asesu lefelau gofal presennol. Bydd mapiau cyfyng wedyn yn cael eu cynhyrchu; gan adnabod ardaloedd tirwedd gweithfeydd haearn sydd o ddiddordeb a photensial arbennig. Yn ystod y flwyddyn hon mae canlyniadau gwaith blaenorol (blynyddoedd un a dau) hefyd yn cael eu hymgorffori er mwyn gallu adnabod a mapio ardaloedd o arwyddocâd arbennig, a bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod blwyddyn pedwar er mwyn ymgorffori ac ystyried ardaloedd echdynnol.

Dros y ddwy flynedd wedyn bydd y prosiect yn cael ei dargedu ar yr ardaloedd hynny (hy ardaloedd draenio ac echdynnu) a ddewiswyd yn ystod blwyddyn tri a phedwar y prosiect, fel rhai sydd â'r potensial mwyaf. Bydd y dewis hwn yn ystyried y tirweddau gweithfeydd haearn ehangach a byddant felly yn cael eu dylanwadu gan ardaloedd craidd gweithfeydd haearn cysylltiedig â nodweddion trafnidiaeth. Bydd y gwaith yma sy'n canlyn ymlaen yn cynnwys lefel fanylach o astudiaeth gan ganolbwyntio ar ardaloedd cyfyngedig sydd wedi'u diffinio yn ystod blwyddyn tri a phedwar y prosiect, a bydd yn cynnwys casglu'r data gefndir hanesyddol sydd ar gael, atchweliad mapiau manwl, a mapio nodweddion o fapio hanesyddol yn fanwl a ffotograffau o'r awyr lle bo angen hynny, a chreu argymhellion rheoli a chynigion amserlenni penodol yn ôl y gofyn.

Yn ystod blwyddyn pump a chwech bydd atchweliad mapiau graen mân o ardaloedd penodol sydd wedi'u diffinio, yn ffurfio elfen bwysig o'r prosiect. Dylai gwaith peilot a wnaed gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent (GGAT) yn Ffos-y-Fran, Merthyr Tudful a gan Archaeological Investigations Ltd yn Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful gynnig fframwaith metholegol defnyddiol. Disgwylir y bydd elfen o waith maes, sydd wedi'i dargedu, yn ffurfio rhan o'r prosiect yn ystod blwyddyn pump a chwech. Bydd y prosiect yn cynnwys croesholi ychydig ar y Cofnod Safleoedd a Chofadeiliau cyfrifiadurol, yn ychwanegol ar ddata cynradd ac eilaidd eraill a fydd ar gael. Mae'n debyg y bydd ymholiadau ynghylch y Cofnod Safleoedd a Chofadeiliau yn fwy gwerthfawr wrth gydberthyn data sydd wedi'i adfer drwy ddulliau eraill. Yn ogystal, fe ymgynghorir â gweithiau ac erthyglau mwy cyffredinol ynghyd â ffynonellau parod eraill, a gofynnir am arbenigedd gan haneswyr ac archaeolegwyr sydd yn gweithio yn yr ardal. Nid yw'n fwriad cynnal ymchwil

gwreiddiol, ond lle byddai ganddi berthnasedd a budd yn y dyfodol, bydd hyn yn cael ei nodi.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn modd fel bydd hi'n bosib ystyried diweddaru gwybodaeth drwy gyfrwng system GIS.
Bydd hyn yn golygu bod modd storio, trin, dadansoddi, croesholi a chyflwyno data ac adolygu gwybodaeth yn y dyfodol. Bydd cydran Technoleg Gwybodaeth y prosiect yn uchel a bydd yn creu model digidol deinamig, aml haen ar gyfer y maes/meysydd astudio.

GGAT 83 Argloddiau Croes-Grib De Ddwyrain Cymru

Bydd yr adroddiad prosiect yn cael ei gwblhau ar ddechrau'r hydref.

GGAT 85 Twmpathau Llosg De Ddwyrain Cymru

Bydd yr adroddiad prosiect yn cael ei gwblhau ar ddechrau'r hydref.
Bydd ail-agor prosiect Tir Gofal yn gwneud y broses o drosglwyddo cyllid ar gadw yn hanfodol a bydd angen gohirio elfen gwaith maes y prosiect hyd nes 2006-2007.

GGAT 86 Gwaith Cynnal Tir Gofal

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys darparu gwybodaeth rheoli treftadaeth archaeolegol, cyngor a gwasanaethau i Gynllun Amaeth-Amgylcheddol Cymru gyfan (Tir Gofal) yn Ne Ddwyrain Cymru gan Adran Guradurol yr Ymddiriedolaeth. Mae Tir Gofal yn gynllun fferm gyfan sydd ar gael drwy Gymru gyfan i ffermwyr er mwyn annog cynhaliaeth a gwelliant tirwedd amaethyddol. Mae nodweddion hanesyddol a safleoedd archaeolegol yn gydrannau pwysig o'r dirwedd ac mae eu rheolaeth a'u gwelliant wedi'u datgan fel amcan yng nghynllun Tir Gofal.

Bydd y gwaith prosiect yn cynnwys: Rheoli prosiect a staff Tir Gofal o fewn yr Ymddiriedolaeth: Cynnal a chadw cronfeydd data; ymgynghoriadau traws-ffiniol; gwybodaeth a chyngor dilynol yn ystod gweithrediad y cytundeb; mynychu cyfarfodydd yr adolygiad; Cysylltu â Swyddogion rhanbarthol Tir Gofal Llywodraeth Cynulliad Cymru; Cysylltu â grwpiau eraill sydd â diddordeb yn ôl y gofyn; Darparu hyfforddiant i swyddogion Tir Gofal; Monitro effeithiolrwydd y cynllun a darparu gwybodaeth am yr adolygiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru; Darparu gwybodaeth ystadegol.

Prosiectau Wrth Gefn

GGAT 84 Digideiddio Ffotograffiaeth o'r Awyr

Rydym yn rhagweld parhau â'r gwaith yma yn enwedig wrth ddigideiddio casgliadau ffotograffig o Wastadoedd Hafren, Ysgafell Fawn Brynmill ac Arolygon Gwastadoedd Gwent sydd yn setiau amlwg a pherthynol.

GGAT XX Arolwg Trefol De Ddwyrain Cymru: Trefynwy

Gwnaed cynnig i gychwyn ar waith Arolwg Trefol yn Ne Ddwyrain Cymru.

Fel y gellid gweld o *Review of the Historic Environment* (Cadw 2003) bu diffyg pwyslais wrth egluro hynodrwydd cymunedau gwahanol o fewn amgylcheddau trefol mwy o faint. Byddai gwaith o'r fath yn cynorthwyo adnabod y naws am le, gan ategu gwerth a ffocws at gymunedau yn Ne Ddwyrain Cymru.

Yn baradocsaidd, mae gan Gymunedau Trefol De Ddwyrain Cymru hanesion y gellid eu cysylltu â'i gilydd ac sy'n gyffredin, ond gallant hefyd fod yn arwahanol ac anghyson. Mae amgylchedd hanesyddol adeiladau sydd yn goroesi hyd heddiw a'r adnodd archaeolegol yn darparu blociau adeiladu o ran eglurder a chysylltu. Bydd y prosiect yn defnyddio'r methodolegau sydd wedi'u datblygu yn dda ar gyfer nodweddu tirwedd hanesyddol fel sydd yn cael ei ddefnyddio mewn cytrefiadau (gall hyn greu allbynnau sydd yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio gofodol), a'r rhai sydd yn cael eu defnyddio o ran crynhoi cronfeydd data trefol (Dull Arolygu Dwys English Heritage - gweler gwefan English Heritage). Gellir defnyddio'r math yma o archwiliad o fewn ardaloedd dethol o fewn craidd trefol amryfeini mwy o faint.

Mae hi'n fwriad yn ogystal i edrych ar *foci* (cofadeiliau, grwpiau o gofadeiliau, grwpiau o adeiladau) o fewn cymunedau trefol ynghyd â'u cyflwr ac ystyried gwelliannau posib o ran cyflwyniad a gwerthfawrogiad. Dylid cysylltu'r rhain ag archwiliadau treftadaeth gymunedol a gallant drwytho cynlluniau trefluniau a fyddent fel arall yn cael eu gweithredu heb fawr o gyfeirio at ardal hanesyddol y gymuned dan sylw. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen ymdrin ag ef mewn modd cymdeithasol gynhwysol. Bydd yr angen i ryngweithio gyda chyrff cynrychioladol lleol, a thrwy hyn a dulliau eraill gweld beth yw barn y cymunedau o'u treftadaeth ynghyd â'u gwerthoedd, yr un mor bwysig i lwyddiant y prosiect â'r gallu i gynnal ymchwil hanesyddol ac archaeolegol; mae'n rhaid priodi barn o'r gwaelod i fyny ac o'r top i lawr gyda'i gilydd.

Trefynwy

Amcanion ardal drefol Trefynwy yw cynnal arolwg hanesyddol dwys a fydd yn creu gwybodaeth hawdd ei defnyddio ar ffurf adroddiad copi caled ac ar GIS digidol a all gael ei ddefnyddio yn anad dim i drwytho cynllunio strategol a phrosesau creu penderfyniadau gwarchodaeth y dyfodol, ond gyda'r bwriad o wneud i'r wybodaeth fod yn hawdd ei chyrraedd er mwyn ei defnyddio i gynnal a thrwytho mentrau eraill yn y gymuned.

Os ydy'r prosiect i lwyddo, mae'n holl bwysig mynd at y gronfa ddata o wybodaeth a adeiladwyd gan Gymdeithas Archaeolegol Trefynwy fel canlyniad o'u hymchwiliadau a'u harsylwadau yn Nhrefynwy ers iddynt gychwyn bron hanner can mlynedd yn ôl, a bod crynodeb o'r data yn cael ei gynnwys yn allbynnau'r prosiect a'u bod yn barod i ymrwymo i'r prosiect. Dylid pwysleisio nad yw'n fwriad gan y prosiect i gyhoeddi canlyniadau gwaith y Gymdeithas ond ei bod yn holl bwysig bod yr holl ddata allweddol, hyd yn oed pe bai wedi'i grynhoi, yn cael ei gynnwys er mwyn sicrhau cywirdeb a chyflawnrwydd y sylfaen o wybodaeth sydd yn mapio datblygiadau'r gorffennol, potensial archeolegol a data cyfyng eraill er mwyn trwytho strategaethau gofal a rheoli.

Yn y bôn, rhagwelir bod tair rhan i'r gwaith. *Cronfa ddata* (casglu gwybodaeth), *asesu* (adroddiad cryno a mapio), *strategaeth* (gofal, rheoli, gwarchod, cyhoeddi). Dylai'r gwaith fod yn ailadroddol drwy'r cyfnodau hyn i gyd, ond mae modd ailadrodd y broses ar gyfer meysydd astudio arwahanol. Felly, er enghraifft, byddai modd delio ag integreiddio barn y gymuned fel darn sydd ar wahân i'r broses o gasglu ac amlinellu data cyfyng. Mae angen dilyn y trywydd hwn gan ei fod yn cael ei

ragweld y bydd y gwaith yn para mwy na blwyddyn a dylai cynnyrch go iawn fod ar gael ar ddiwedd pob cyfnod ariannu.

Fel nododd Cadw eisoes, er mwyn gweld cynnydd mewn prosiectau mae angen partneriaeth gyfartal gyda'r awdurdod cynllunio lleol. Mae Cyngor Sir a Bwrdeistref Mynwy, nid yn unig wedi dangos brwdfrydedd tuag at y gwaith, ond maent wedi adnabod a chynnig cyllid i gefnogi gwaith y bartneriaeth.

Cyfeiriad

Cadw 2003 *Review of the Historic Environment in Wales: A consultation Document* http://www.cadw.wales.gov.uk/upload/resourcepool/48676.htm

English Heritage *Historic Town & City Surveys Website Summary* http://www.english-heritage.org.uk/server/show/nav.001002003008002